SAFER VALE
BRO DDIOGELACH

# Adolygiad Dynladdiad Domestig

## 'Janet'

## Bu Farw: Awst 2016

***Tony Blockley***
***Cadeirydd yr Adolygiad Annibynnol o Ddynladdiad Domestig ac Awdur yr Adroddiad***
***Johnston a Blockley Cyfyngedig***
***Tachwedd 2017***

*Mae'r adroddiad hwn yn eiddo i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Bro Morgannwg. Ni ddylid ei newid, ei ddiwygio, ei ddosbarthu na'i gyhoeddi heb ganiatâd penodol Cadeirydd yr adolygiad. Cyn ei gyhoeddi, mae'n cael ei farcio'n Swyddogol Sensitif o dan Ddosbarthiadau Diogelwch y Llywodraeth 2014*

# Mynegai

Cyflwyniad 4

Partneriaeth Bro Morgannwg yn Erbyn Trosedd – Llywodraethu Strategol 7

Sefydlu'r Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn 7

Pwrpas Adolygiad Dynladdiad Domestig 8

Egwyddorion cyffredin yr adolygiad 9

Cylch gorchwyl yr adolygiad 9

Cwmpas yr adolygiad 12

Methodoleg 12

Asiantaethau cyfranogol 13

Cadeirydd Panel ADD ac Awdur yr Adroddiad Trosolwg 14

Y Panel ADD 15

Prosesau cyfochrog 16

Crynodeb o'r hyn yr oedd asiantaethau yn ei wybod am Janet ac am Oedolion A (a dadansoddiad)

- Heddlu De Cymru 17
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol 26
- Cyngor Bro Morgannwg - Gwasanaethau Oedolion 31
- Cyngor Bro Morgannwg - Adran Dai 32
- Cyngor Bro Morgannwg - Tîm Cefnogi Pobl 35
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 36
- Gwasanaethau Trais Domestig Atal y Fro 44
- Cymdeithas Dai Gofal Hafod 45

Cyfweliad ag Oedolyn A yn y carchar 50

Mynd i'r Afael â'r Cylch Gorchwyl 51

Gwersi allweddol a ddysgwyd gan yr asiantaethau 58

Casgliadau 62

Argymhellion 63

## Rhagair

Mae **'Janet'** yn ffugenw a ddewiswyd gan y panel adolygu.

Hoffai Panel Adolygiad Dynladdiad Domestig Bro Morgannwg fynegi ei gydymdeimladau dwys i deulu Janet; mae eu colled yn dal i gael ei deimlo'n fawr.

Ysgrifennodd y panel at deulu a ffrindiau Janet a’u gwahodd i fod yn rhan o'r adolygiad. Yn dilyn galwad ffôn i reolwr Trais yn erbyn Menywod, Trais Rhywiol a Thrais Domestig (VAWDASV) Bro Morgannwg, fe wnaethant fynegi eu dymuniadau i beidio â chymryd rhan yn yr adolygiad ac mae'r panel yn parchu eu dymuniadau. Bob amser mae'r panel wedi ceisio gweld beth ddigwyddodd drwy lygaid Janet. Hoffem roi sicrwydd i bob un ohonynt wrth gynnal yr adolygiad hwn, rydym yn ceisio dysgu gwersi i wella ymateb sefydliadau mewn achosion cam-drin domestig.

Prif bwrpas cynnal adolygiad o ddynladdiad domestig yw galluogi gwersi i gael eu dysgu lle mae person yn marw oherwydd cam-drin domestig. Er mwyn i'r gwersi hyn gael eu dysgu mewn modd mor eang a thrwyadl â phosibl, mae angen i weithwyr proffesiynol allu deall yn llawn beth ddigwyddodd ym mhob dynladdiad, ac yn bwysicaf oll, beth sydd angen newid i leihau'r risg y bydd trasiedi o'r fath yn digwydd yn y dyfodol. Roedd marwolaeth Janet yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal adolygiad dynladdiad domestig o dan Adran 9 (3)(a) o Ddeddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004. Mae'r Swyddfa Gartref yn diffinio trais domestig fel:

*‘Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o reoli, gorfodi, ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin rhwng y rhai sy'n hŷn nag 16 oed sydd yn, neu sydd wedi bod yn, bartneriaid neu aelodau teulu agos ni waeth beth fo’u rhywedd neu rywioldeb. Gall hyn gwmpasu, ond nid yw'n gyfyngedig i’r mathau canlynol o gam-drin: seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.’*

Ymddygiad rheoli yw: *‘Amrywiaeth o weithredoedd i wneud person yn israddol a / neu'n ddibynnol drwy ei dynnu i ffwrdd o ffynonellau cefnogaeth, ecsbloetio ei adnoddau a galluoedd er mantais bersonol, ei amddifadu o'r hyn sydd ei angen ar gyfer annibyniaeth, gwydnwch a dianc a rheoleiddio ei ymddygiad bob dydd.’*

Ymddygiad gorfodol yw: *‘Gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, cywilydd a brawychu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu ddychryn y dioddefwr.’*

Bydd y term cam-drin domestig yn cael ei ddefnyddio drwy gydol yr adolygiad hwn gan ei fod yn adlewyrchu’r ystod o ymddygiad sydd wedi'i grynhoi yn y diffiniad uchod ac yn osgoi'r tueddiad i ystyried cam-drin domestig yn nhermau ymosodiad corfforol yn unig.

## 1 Cyflwyniad

Dyma'r adroddiad o adolygiad dynladdiad domestig (ADD), yn dilyn marwolaeth Janet ar 14 Awst 2016. Mae wedi ceisio darparu archwiliad annibynnol o ba wasanaethau a ddarparwyd neu a allai fod wedi cael eu darparu i Janet gan asiantaethau a allai fod wedi cael cysylltiad â hi. Mae'r adolygiad wedi dadansoddi'r ddarpariaeth gwasanaeth, gan drafod unrhyw wersi a nodwyd a gwneud argymhellion, gyda'r bwriad o wella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr cam-drin domestig ym Mro Morgannwg ac mewn mannau eraill.

2 Ffoniodd aelod o'r cyhoedd yr heddlu ar ôl i Janet gael ei chlywed yn galw am help yn ystod noson 4 Awst 2016. Daeth yr heddlu o hyd i Janet yn ymwybodol, ond roedd ganddi losgiadau sylweddol i'w chorff, a dywedodd eu bod wedi'u hachosi gan Oedolyn A. Cafodd ei chludo i'r ysbyty mewn ambiwlans lle cafodd ei rhoi mewn coma ysgogedig. Er gwaethaf ymdrechion gorau staff meddygol, bu farw Janet ddeng diwrnod yn ddiweddarach yn sgil methiant organau lluosog a sepsis yn ôl pob tebyg.

## 3 Janet

Roedd Janet yn 54 oed pan fu farw. Ym 1990, collodd ei merch 18 mis oed mewn tân yn y tŷ, digwyddiad trasig y dywedodd y barnwr yn ei threial a arweiniodd at ei gorddibyniaeth ar alcohol, a'i gwnaeth yn ei dro yn agored i gam-drin gan ddau bartner gwrywaidd. Cafodd ei bywyd ei ddinistrio gan gamdriniaeth gan un ohonynt (Oedolyn B) am ddeng mlynedd hyd at 2007, ac yn ystod y cyfnod hwnnw galwyd yr heddlu ar dros 40 o adegau.

4 Ei hail bartner camdriniol a'r un sy'n gyfrifol am ei marwolaeth oedd Oedolyn A. Rhwng 2007 a'r digwyddiad a arweiniodd at farwolaeth Janet ar 14 Awst 2016,

cofnodwyd pedwar digwyddiad arwyddocaol yn ymwneud â Janet ac Oedolyn A gan yr heddlu.

5 **Oedolyn A**

Roedd Oedolyn A yn 62 oed pan ymosododd ar Janet ddiwethaf. Ymddangosodd yn Llys y Goron Caerdydd ar 21 Rhagfyr 2016, lle plediodd yn euog i'w llofruddiaeth. Cafodd ei ddedfrydu i garchar am oes, gyda thariff o 17 mlynedd a phedwar mis. Ar ôl y 17 mlynedd a phedwar mis, bydd Oedolyn A yn gymwys ar gyfer parôl.

6 Yn ystod yr achos llys, gwnaeth y barnwr y sylwadau canlynol:

*"Roedd bwriad yma i achosi niwed corfforol difrifol yn hytrach na lladd... ond fe wnaethoch chi adael y sefyllfa mor gyflym ag y gallech chi".*

*"Roeddech chi wedi bod mewn perthynas. Roeddech chi'n dreisgar gyda hi... Ym 1990 bu tân yn y tŷ lle bu farw ei merch 18 mis oed... daeth ei phriodas i ben a dechreuodd yfed yn drwm... roedd ganddi ofn mawr o dân".*

*"Roedd ei pherthynas â chi wedi'i nodweddu gan drais domestig... methodd y gorchymyn atal â sicrhau bod arwahaniad".*


*"Ar 4 Awst am tua 9pm fe wnaethoch chi gynnau tân arni... Yn ei chyfrif cyntaf i'r swyddog dywedodd eich bod chi wedi ei gwthio, wedi dweud wrthi eich bod chi'n mynd i'w lladd, ei chwistrellu a'i chynnau tân arni... Fe wnaethoch chi ddim i'w helpu".*

7 **Cyfranwyr i'r adolygiad hwn**


Ysgrifennwyd at deulu a ffrindiau Janet a gofynnwyd iddyn nhw gymryd rhan yn yr adolygiad, a/neu ddarparu gwybodaeth a allai helpu'r adolygiad i gael gwell dealltwriaeth o'r digwyddiadau yn ei bywyd a arweiniodd at y digwyddiad trasig hwn. Gwnaed galwad ffôn ddilynol i aelod o'r teulu a fynegodd y dymuniad i beidio â chymryd rhan yn yr adolygiad.

Cysylltwyd ag Oedolyn A drwy swyddfa'r carchar a'r rheolwr troseddwyr, a gafodd sgwrs hir gydag Oedolyn A lle dywedodd nad oedd am fod yn rhan o'r adolygiad, gwrthododd hefyd roi caniatâd i gael mynediad at ei gofnodion meddygol y gofynnwyd amdanynt ar ran y panel.

## 8 Genogram



## 9 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Bro Morgannwg




## 10 Sefydlu'r Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn

I ddechrau roedd gwall gweinyddol wrth hysbysu'r bartneriaeth am farwolaeth Janet. Cysylltodd yr heddlu â chyngor Caerdydd, gan ei hysbysu am y farwolaeth, ond ni wnaeth cyngor Caerdydd hysbysu Bro Morgannwg. Nid cyngor Caerdydd yw'r awdurdod priodol a dylent fod wedi ail-anfon yr hysbysiad i Fro Morgannwg, ond ni wnaethant hynny.

Yn y pen draw, hysbyswyd Bro Morgannwg ar 25 Ionawr 2017 ac yn dilyn y penderfyniad i gynnal ADD, hysbyswyd y Swyddfa Gartref ar 16 Mawrth 2017.

11 Dysgodd y bartneriaeth fod Janet yn dal yn i fod yn ymwybodol pan gyrhaeddodd yr heddlu ac er ei bod mewn poen enfawr, roedd hi'n gallu dweud wrthynt fod Oedolyn A wedi arllwys tanwydd drosti a chynnau tân arni.

12 Arestiodd yr heddlu Oedolyn A yn oriau mân y bore ar y 5 Awst 2016 am lofruddiaeth Janet a dywedodd "ie, iawn ie" cafodd ei gyfweld wedyn a'i gyhuddo o lofruddiaeth Janet. Pan ymddangosodd yn y llys plediodd yn euog i'w llofruddiaeth.

## 13 Pwrpas Adolygiad Dynladdiad Domestig

14 Pwrpas Adolygiad Dynladdiad Domestig yw:

a. Sefydlu pa wersi sydd i'w dysgu o'r dynladdiad domestig ynghylch y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau lleol yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddiogelu dioddefwyr;

b. Nodi'n glir beth yw'r gwersi hynny, o fewn asiantaethau a rhyngddynt, sut ac o fewn pa amserlenni y gweithredir arnynt, a'r hyn y disgwylir iddo newid o ganlyniad iddynt;

c. Cymhwyso'r gwersi hyn i ymatebion y gwasanaeth, gan gynnwys newidiadau i lywio polisïau a gweithdrefnau lleol a chenedlaethol fel y bo'n briodol;

d. Atal trais domestig a dynladdiad a gwella ymatebion gwasanaeth ar gyfer pob dioddefwr trais a cham-drin domestig a'u plant drwy ddatblygu dull amlasiantaethol cydgysylltiedig i sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei nodi ac yr ymatebir iddo’n effeithiol ar y cyfle cynharaf;

e. Cyfrannu at well dealltwriaeth o natur trais a cham-drin domestig;

f. Tynnu sylw at arferion da.

## 15 Egwyddorion cyffredin yr adolygiad

Mae'r Cylch Gorchwyl a fydd yn cael sylw yn yr Adolygiadau Rheoli Unigol wedi'u hategu gan yr egwyddorion cyffredin a nodir yn Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg 2011-2021, sef y ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt i leihau effaith cam-drin domestig ar ddioddefwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach a sicrhau bod cymorth a chefnogaeth ar gael. Y deilliannau arfaethedig yw:

- Lleihau nifer y digwyddiadau dro ar ôl tro a chynyddu nifer yr adroddiadau cynnar a gwella diogelu
- Mwy o ymwybyddiaeth gymunedol a mynediad at gymorth
- Cynnydd yn y cymorth a'r help sydd ar gael i ddioddefwyr
- Mae gan droseddwyr fynediad at raglen effeithiol i fynd i'r afael â'u hymddygiad camdriniol

Bydd y rhain yn cael eu cyflawni drwy’r canlynol:

- Darparu cymorth a chyngor arbennig i'r dioddefwyr hynny o fewn y system cyfiawnder troseddol
- Sicrhau perthynas waith effeithiol rhwng darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig
- Gweithio’n agos â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac alcohol i nodi rhaglenni cydweithredol yn y dyfodol i fynd i’r afael â cham-drin domestig

## 16 Cylch gorchwyl yr adolygiad

Mae'r adolygiad wedi:

- Gwahodd ymatebion gan asiantaethau neu unigolion a nodwyd drwy'r broses a gofyn am Adolygiadau Rheoli Unigol gan bob un a oedd yn ymwneud â Janet, a/neu Oedolyn A (Gweler yr adran 'Adolygiadau Rheoli Unigol' isod)

- Ystyried ymgysylltiad pob asiantaeth â Janet ac Oedolyn A rhwng 1 Gorffennaf 2011 a 4 Awst 2016, yn amodol ar unrhyw wybodaeth sy'n dod i'r amlwg a ysgogodd adolygiad o unrhyw ddigwyddiadau cynharach a oedd yn berthnasol. (Gweler 'Cwmpas yr Adolygiad' isod)

- Ceisio cyfranogiad teulu a ffrindiau Janet ac Oedolyn A, i ddarparu dadansoddiad cadarn o'r hyn a ddigwyddodd

- Penderfynu sut y dylid rheoli materion sy'n ymwneud â theulu, y cyhoedd a'r cyfryngau cyn, yn ystod ac ar ôl yr adolygiad a phwy ddylai fod yn gyfrifol am hyn

- Ystyried crwneriaid neu achosion troseddol (gan gynnwys materion datgelu) o ran amseru a chysylltiad â theulu a ffrindiau Janet i sicrhau y gellid rhannu gwybodaeth berthnasol heb achosi oedi sylweddol yn y broses adolygu neu lesteirio'r broses farnwrol

- Ystyried a oedd angen i'r panel adolygu gael cyngor cyfreithiol annibynnol ar unrhyw agwedd ar yr adolygiad

- Sicrhau bod y broses adolygu wedi ystyried gwersi a ddysgwyd o ymchwil ac adolygiadau dynladdiad domestig blaenorol.

17 Mae'r adolygiad wedi mynd i'r afael â’r canlynol:

- A oedd y digwyddiad lle bu farw Janet yn ddigwyddiad ynysig neu a oedd unrhyw arwyddion rhybuddio ac a ellid bod wedi gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr trais domestig

- A oedd unrhyw rwystrau i Janet neu deulu/ ffrindiau/ cydweithwyr wrth adrodd am unrhyw gam-drin ym Mro Morgannwg neu mewn mannau eraill, gan gynnwys a oeddent yn gwybod sut i adrodd am gam-drin domestig pe baent wedi dymuno gwneud hynny

- A oedd Janet wedi profi cam-drin mewn perthnasoedd blaenorol ym Mro Morgannwg neu mewn mannau eraill, ac a wnaeth y profiad hwn effeithio ar ei thebygolrwydd o geisio cymorth yn y misoedd cyn iddi farw

- Os oedd cyfleoedd wedi’u colli i weithwyr proffesiynol 'holi fel mater o drefn' am unrhyw gam-drin domestig a brofwyd gan Janet

- A oedd gan Oedolyn A unrhyw hanes blaenorol o ymddygiad camdriniol tuag at bartner agos, perthynas neu rywun yr oedd yn cyd-fyw â nhw ac a oedd hyn yn hysbys i unrhyw asiantaethau

- A oedd cyfleoedd wedi’u colli i asiantaethau ymyrryd mewn cysylltiad â cham-drin domestig ynghylch Janet ac Oedolyn A neu blant dibynnol

- A oes unrhyw ofynion hyfforddi neu godi ymwybyddiaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a/neu wasanaethau cam-drin domestig yn y rhanbarth

- A oes unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymddangos yn berthnasol i Janet, Oedolyn A ac unrhyw blant dibynnol, e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

18 **Cwmpas yr adolygiad**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i adolygu ymgysylltiad pob asiantaeth â Janet ac ag Oedolyn A o 1 Gorffennaf 2011 i 4 Awst 2016, sef dyddiad y digwyddiad a arweiniodd at farwolaeth Janet 10 diwrnod yn ddiweddarach.

Dewiswyd 1 Gorffennaf 2011 gan mai hwn oedd dyddiad digwyddiad yn ymwneud â Janet ac Oedolyn A cyn y digwyddiad a arweiniodd at ei garcharu am gyfnod sylweddol o amser am ymosod arni.

19 Yn ogystal â'r Adolygiad Rheoli Unigol, gofynnwyd i bob asiantaeth ddarparu cronoleg o ryngweithio â Janet ac Oedolyn A, gan gynnwys pa benderfyniadau asiantaeth a wnaed a pha gamau a gymerwyd. Ystyriodd yr adolygiadau rheoli unigol y cylch gorchwyl ac a oedd gweithdrefnau mewnol wedi'u dilyn ac a oeddent, wrth fyfyrio, wedi bod yn ddigonol. Gofynnwyd i awduron yr adolygiadau rheoli unigol ddod i gasgliad ynglŷn â'r hyn a oedd wedi digwydd o safbwynt eu sefydliad eu hunain ac i wneud argymhellion, os yw'n briodol. Yn ogystal, gofynnwyd iddynt gynnwys gwybodaeth a ddaeth i'r amlwg ar ôl marwolaeth Janet a allai nodi gwersi ar gyfer y dyfodol.

20 **Methodoleg**

Mae'r adroddiad trosolwg hwn wedi'i lunio o ddadansoddiad o'r gronoleg amlasiantaethol a'r wybodaeth a ddarperir yn yr adolygiadau rheoli unigol. Mae

canfyddiadau adolygiadau blaenorol ac ymchwil i wahanol agweddau ar gam-drin domestig wedi'u hystyried hefyd, mae'r rhain yn cynnwys:

- Canllawiau Statudol Amlasiantaethol y Swyddfa Gartref ar gyfer Cynnal Adolygiadau Dynladdiad Domestig
- Canllaw Pecyn Cymorth Adolygu Dynladdiad Domestig y Swyddfa Gartref ar gyfer Awduron Adroddiadau Trosolwg
- Call to End Violence Against Women and Girls – Llywodraeth EM (Tachwedd 2010)
- Barriers to Disclosure – Walby ac Allen, 2004
- Home Office Domestic Homicide Reviews – Common themes identified and lessons learned – Tachwedd 2013
- Prevalence of intimate partner violence: findings from the WHO multi-country study on women's health and domestic violence, 2006.
- 'If only we'd know': an exploratory study of seven intimate partner homicides in Engleshire - Gorffennaf 2007.
- DHR Case Analysis Report / Standing Together, Tachwedd (2016)
- Key Findings from Analysis of DHRs (Swyddfa Gartref, Rhagfyr 2016)
- Preventing Domestic Violence and Abuse: Common lessons Learned from West Midlands DHRs (Dr Lucy Neville and Dr Erin Sanders McDonagh, 2014)
- Southend, Essex and Thurrock Domestic Homicide Review Case Analysis Ionawr 2017 (SET DHR Thematic Review Sub-Group)
- Ymchwil annibynnol Cadeirydd y panel (2017)

## 21 Asiantaethau cyfranogol

Gofynnwyd i'r asiantaethau canlynol roi cyfrifon cronolegol o'u cysylltiad â Janet ac ag Oedolyn A yn ystod y cyfnod cwmpasu:

- Heddlu De Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cyngor Bro Morgannwg - Gwasanaethau Oedolion
- Cyngor Bro Morgannwg - Rheoli Tai
- Cyngor Bro Morgannwg - Tîm Datrysiadau Tai
- Cyngor Bro Morgannwg - Rhenti Tai
- Cyngor Bro Morgannwg - Cefnogi Pobl
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaethau Trais Domestig Atal y Fro
- Cymdeithas Dai Gofal Hafod

**Roedd asiantaethau eraill yn rhan o'r adolygiad ond nid oeddent yn cadw unrhyw wybodaeth**

- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru*
- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg*
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru*

## 22 Cadeirydd Panel ADD ac Awdur yr Adroddiad Trosolwg

Comisiynodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Bro Morgannwg Tony Blockley i gadeirio'r adolygiad ac i ysgrifennu'r adroddiad trosolwg. Nid oes gan Tony unrhyw gysylltiad â Bro Morgannwg, nid yw erioed wedi gweithio nac wedi ymwneud ag unrhyw asiantaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad ac mae'n annibynnol at ddibenion yr adolygiad.

Mae'n uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Derby ac mae hefyd yn cwblhau PhD mewn trais a cham-drin domestig, gyda phwyslais ar adnabod a dadansoddi risg. Mae'n gadeirydd y grŵp strategol amlasiantaethol cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn

Swydd Derby, yn is-gadeirydd elusen gwasanaethau trais domestig a cham-drin rhywiol ac yn arweinydd dioddefwyr ar fwrdd cynghori CiC 'No Offence'. Yn flaenorol, buodd yn gyfrifol am adran heddlu a oedd yn cynnwys pob agwedd ar amddiffyn y cyhoedd. Dyfeisiodd a chyflwynodd hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau arbenigol a oedd yn cynnwys diogelu a gwaith amlasiantaethol.

Nid oes gan Tony unrhyw gysylltiad â Bro Morgannwg, nid yw erioed wedi gweithio nac wedi ymwneud ag unrhyw asiantaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad.

23 **Y Panel ADD**

Cyfansoddwyd y panel adolygu fel a ganlyn:

24

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Tony Blockley | Cadeirydd/awdur yr adroddiad – Johnston a Blockley |
| Julie Grady | Rheolwr VAWDASV |
| Deborah Gibbs | Arweinydd y Tîm Diogelwch Cymunedol a Phartneriaeth |
| Sue Hurley | Rheolwr Annibynnol Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed |
| Hannah Williams | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Vaughan Jenkins | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Kay Quinn | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Trais Domestig Atal y Fro |
| Miles Punter | Cadeirydd, Cyfarwyddwr Amgylcheddol a Thai |
| Victoria Harris | Cwmni Adsefydlu Cymunedol |
| Yvette Tyndle | Gofal Hafod |
| Linda Hughes-Jones | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Deborah Davies | Gwasanaethau plant |
| Linda Woodley | Gwasanaethau oedolion |

| | |
|---|---|
| Helen Jones | Rheolwr Cefnogi Pobl |
| Mike Ingram | Pennaeth Tai |

25 Cyfarfu'r panel adolygu ar y dyddiadau canlynol:

| | |
|---|---|
| 27 Mehefin 2017 | 31 Gorffennaf 2017 |
| 8 Medi 2017 | 29 Tachwedd 2017 |

26 **Prosesau cyfochrog**

Cafwyd ymchwiliad trylwyr gan yr heddlu i amgylchiadau marwolaeth Janet ac achosion llys dilynol, a arweiniodd at euogfarn i Oedolyn A am ei llofruddiaeth.

27 Cyfeiriwyd marwolaeth Janet i'r Crwner, a agorodd gwest ac yna ei ohirio oherwydd bod Oedolyn A wedi'i gyhuddo o'i llofruddiaeth.

Gan y bu treial llawn a thrafodwyd amgylchiadau marwolaeth Janet yn y llys, ni chynhaliodd y crwner gwest ffurfiol, yn unol â Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

28 **Crynodeb o'r hyn yr oedd asiantaethau yn ei wybod am Janet ac am Oedolion A**

Bydd yr adran nesaf o'r adroddiad hwn yn nodi'r hyn yr oedd pob asiantaeth yn ei wybod am Janet ac am Oedolyn A cyn digwyddiadau ofnadwy 4 Awst 2016. Bydd dadansoddiad o ymgysylltiad yr asiantaeth yn cael ei gynnwys hefyd.

29 **Heddlu De Cymru**

30 **Beth roedd Heddlu De Cymru yn ei wybod am Janet**

Yn ystod noson 2 Gorffennaf 2011, ffoniodd Janet yr heddlu o dŷ cymydog gan ddweud bod Oedolyn A wedi ymosod arni. Ychwanegodd ei bod wedi dadlau ag ef ar ôl iddo danio'r larwm mwg wrth goginio; yna roedd wedi gafael yn ei gwddf, ond roedd hi wedi gallu torri'n rhydd. Dywedodd Janet fod Oedolyn A wedi dwyn ei ffôn symudol hefyd.

**Sylwadau:** *Mae tagu â llaw yn thema ailadroddus mewn cam-drin domestig ac yn aml mae naill ai yn arwydd o batrwm parhaus o gam-drin neu mae'n rhagarweiniol i drais yn gwaethygu. Mae'r weithred yn anfon neges i'r dioddefwr bod gan y troseddwr y pŵer i ddwyn bywyd y dioddefwr, heb fawr o ymdrech, mewn cyfnod byr, ac mewn ffordd a allai adael tystiolaeth brin o ffrae.*

31 Er nad oedd gan Janet unrhyw anafiadau gweladwy, arestiodd yr heddlu Oedolyn A am ymosodiad. Dywedodd Janet wrthynt ei bod hi ac Oedolyn A wedi bod yn yfed gyda'i gilydd drwy'r dydd a bod y ddau ohonynt yn feddw. Dywedodd hefyd fod Oedolyn A wedi bod yn ysmygu canabis.

32 Gwrthododd Janet wneud datganiad i'r heddlu am yr hyn oedd wedi digwydd; gan ddweud mai'r cyfan yr oedd hi'n ei ddymuno oedd iddo beidio ag ymweld â'i chartref eto. Cafodd Oedolyn A ei gyfweld, ond dewisodd beidio ag ateb unrhyw gwestiynau a chafodd ei ryddhau heb gael ei gyhuddo.

**Sylwadau:** *Bydd Janet wedi gwybod trwy brofiad y byddai'r heddlu yn ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau o'r fath ac mae'n debygol ei bod wedi defnyddio'r dacteg*

*hon i atal y trais neu'r bygythiad uniongyrchol ohono. Pan fydd sefyllfa ymfflamychol wedi gostegu, er gwaethaf y cymorth a gynigir weithiau, mae'n thema ailadroddus arall o adolygiadau dynladdiad domestig y bydd dioddefwyr yn ffonio'r heddlu i ddod i'w helpu mewn cyfnod o argyfwng ac yna peidio â chefnogi erlyniad; mae'n aml yn opsiwn mwy diogel na pheidio â'u cynnwys nhw o gwbl.*

33 Ceisiodd yr heddlu sawl gwaith drefnu i gymryd datganiad gan Janet ac fe wnaethant ymweld â hi ar 5 a 13 Gorffennaf i wirio ei bod hi'n iawn ac i ofyn iddi eto am wneud datganiad. Dywedodd fod Oedolyn A yn 'gyn-bartner' iddi erbyn hyn ac ailadroddodd nad oedd hi'n dymuno canlyn hyn ymhellach. Rhoddodd y swyddog fanylion cyswllt iddi ar gyfer uned cam-drin domestig yr heddlu ac Atal y Fro (sefydliad sy'n helpu teuluoedd sy'n dioddef cam-drin domestig – gweler yn nes ymlaen).

34 Yn ystod yr ymweliad ar 5 Gorffennaf, dywedodd Janet wrth y swyddogion ei bod wedi bod mewn perthynas dreisgar ag Oedolyn A ers naw mlynedd. Dywedodd ei fod wedi cael ei anfon i'r carchar am bedair blynedd yn 2004 am ymosod arni pan wnaeth dorri ei phenglog ac asgwrn ei boch. Ychwanegodd nad oedd hi wedi rhoi tystiolaeth yn ei erbyn ar yr adeg honno.

**Sylwadau:** *Roedd yr heddlu yn ymwybodol bod Oedolyn A wedi'i gofnodi fel Lefel 1 - Troseddwr Treisgar Difrifol yn y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd.*

*Cydnabyddir y gellid bod wedi ystyried erlyniad di-ddioddefwr, fodd bynnag dylai barn y dioddefwr fod yn ystyriaeth hefyd mewn unrhyw benderfyniad ynghylch achosion troseddol. Yn y digwyddiad penodol hwn roedd Janet yn bendant nad oedd hi eisiau cefnogi erlyniad. Heb dystiolaeth Janet, ac yn absenoldeb unrhyw anafiadau gweladwy i gefnogi ei honiad cychwynnol bod Oedolyn A wedi gafael yn ei gwddf,*

*ynghyd â gwrthodiad Oedolyn A i ateb cwestiynau ar ôl ei arestio, mae'n annhebygol y byddai'r achos hwn wedi bodloni trothwy Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer erlyniad di-ddioddefwr.*

*Ers y cyfnod hwn mae Heddlu De Cymru wedi ymdrechu'n barhaus i wella'r ffordd y maent yn mynd i'r afael â Cham-drin Domestig. Yn fwy diweddar, er nad yw'n berthnasol i'r digwyddiad penodol hwn oherwydd nad oedd unrhyw anafiadau gweladwy, maent wedi cyflwyno camerâu y mae swyddogion ymateb yn eu gwisgo. Bydd hyn yn galluogi swyddogion i gofnodi'r anafiadau gweladwy ar y pryd i ddioddefwyr a chofnodi eu cyfrifon cyntaf, a fydd yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth ategol yn yr achosion hynny lle mae dioddefwyr amharod.*

*Er gwaethaf y ffaith nad oedd Janet yn dymuno cynnal achos, aeth yr heddlu ati i sicrhau bod asiantaethau partner yn cael eu hysbysu i ganiatáu darpariaeth gwasanaeth effeithiol i gefnogi Janet.*

35 Ar 9 Tachwedd 2011, ffoniodd Janet 999 i ddweud bod Oedolyn A wedi ei dyrnu. Ychwanegodd ei fod yn feddw ac nad oedd hi'n gallu dod o hyd i'w allweddi tŷ ac roedd ofni arni y bydd yn dod yn ôl i'w thŷ.

36 Pan gyrhaeddodd yr heddlu, fe wnaethon nhw ddarganfod bod Janet yn feddw iawn a dywedodd nad oedd hi'n cofio eu ffonio nhw. Dywedodd ei bod wedi dod o hyd i'w hallweddi ers hynny a'i bod wedi bod yn flin wrth feddwl am ddod â'i pherthynas ag Oedolyn A i ben.

37 Ar nos Galan 2011, galwodd Janet rif argyfwng yr heddlu i ddweud bod ei mab a'i bartner yn ymladd y tu allan i'w chartref. Cofnododd gweithredwr yr heddlu ei bod hi'n swnio'n feddw a'i bod wedi dweud bod partner ei mab yn gofalu am ddau blentyn ifanc iawn.

38 Daeth i'r amlwg bod mab Janet, ei bartner, Oedolyn A a Janet i gyd wedi bod yn yfed gyda'i gilydd pan gychwynnodd ffrae rhyngddynt. Roedd yr heddlu o'r farn bod mam y plant yn gallu gofalu amdanynt.

**Sylwadau:** *Cafodd mab Janet ei arestio yn ddiweddarach am ymosodiad, ond nid oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau erlyniad.*

39 Ar 19 Mehefin 2012, adroddodd Janet fod ffrae arall yn digwydd yn ei chyfeiriad cartref. Roedd hi'n ofidus a dywedodd fod Oedolyn A wedi ymosod arni hi a'i ffrind. Pan gyrhaeddodd yr heddlu, darganfuwyd mai dim ond ffrae lafar oedd wedi digwydd ac nad oedd neb wedi troseddu, er bod pawb dan sylw yn feddw.

40 Ar 7 Gorffennaf 2012, arestiwyd Oedolyn A am ymosod ar Janet ar ôl iddynt fod yn yfed gyda'i gilydd drwy'r dydd. Dechreuodd ffrae a thaflodd Janet fwyd at Oedolyn A, a ymatebodd drwy ddyrnu Janet yn ei hwyneb a gafael yn ei gwddf. Roedd anafiadau Janet yn cynnwys briw i’w gwefus, dau ddant rhydd, cleisio i'w gwddf, ceg ac ysgwyddau a dolur gwddf.

41 Dywedodd Oedolyn A wrth yr heddlu fod Janet wedi bod yn ei wawdio am ei gyn-wraig a fu farw o ganser a'i fod wedi bod yn amddiffyn ei hun oherwydd bod Janet wedi ymosod arno, ond serch hynny, cafodd ei gyhuddo o ymosod arni. Arhosodd yn y ddalfa tan fis Hydref 2012 pan y’i cafwyd yn euog o ymosodiad a chafodd ei ddedfrydu i dair blynedd o garchar. Rhoddwyd gorchymyn atal penagored iddo hefyd i atal niwed pellach i Janet. Cafodd Oedolyn A ei ryddhau o'r carchar ar 7 Ionawr 2014.

42 Ar 1 Ebrill 2014, ffoniodd ffrind i Janet yr heddlu i ddweud y bu yn nhŷ Janet y noson gynt pan oeddent wedi gweld yr heddlu y tu allan, a oedd yn ymddangos fel pe baent

yn gwylio'r tŷ. Roedd wedi poeni Janet oherwydd ei bod yn meddwl y gallai fod wedi ymwneud ag Oedolyn A gan ei fod allan o'r carchar.

Roedd yr heddlu yn gallu dweud wrth y galwr nad oedd eu presenoldeb yn yr ardal wedi ymwneud â Janet nac Oedolion A. Ymwelodd swyddogion â Janet ar 3 Ebrill 2014 a dywedodd fod ei ffrind wedi dweud wrthi nad oedd gweithgaredd yr heddlu wedi bod yn gysylltiedig â hi. Ychwanegodd ei bod hi'n ddiogel ac yn iach ac nad oedd hi wedi gweld na chlywed gan Oedolyn A ers iddo gael ei ryddhau o'r carchar.

43 Yn ystod y prynhawn 10 Hydref 2015, ffoniodd Janet 999 gan ddweud bod Oedolyn A wedi ei dyrnu yn ei phen. Dywedwyd yng nghofnod yr heddlu o'r digwyddiad fod Janet yn feddw iawn ac nad oedd yn gallu rhoi manylion am ble roedd yr ymosodiad wedi digwydd. Yn y pen draw, daeth yr heddlu o hyd i Janet yn ei chyfeiriad cartref; dywedodd wrthynt y bu'n yfed trwy'r dydd gyda ffrindiau, gan gynnwys Oedolyn A. Gwnaethant ddechrau ffraeo ac yna fe wnaeth Oedolyn A ei dyrnu yn ei phen gan achosi clais bach. Dywedodd Janet wrth y swyddogion nad oedd hi eisiau gwneud datganiad na thynnu llun o'i hanaf, ond y gallai newid ei meddwl yn nes ymlaen. Aeth yr heddlu i arestio Oedolyn A, ond nid oedd modd dod o hyd iddo.

44 Aeth yr heddlu i weld Janet y diwrnod canlynol. Dywedodd eto nad oedd yn dymuno gwneud cwyn yn erbyn Oedolyn A ac na fyddai'n cefnogi unrhyw ymchwiliad. Dywedodd hefyd na fyddai ffrind a oedd wedi bod yn dyst i'r digwyddiad yn darparu datganiad chwaith.

45 Serch hynny, cafodd Oedolyn A ei arestio ar 14 Hydref 2015. Dywedodd wrth yr heddlu ei fod yn alcoholig a'i fod ef a Janet yn anfon negeseuon testun ac yn ffonio ei gilydd o bryd i'w gilydd. Roedd wedi siarad â Janet ar 10$^{fed}$ Hydref a dywedodd wrthi ei fod yn mynd i wylio'r teledu gyda ffrindiau. Cyrhaeddodd Janet yn ddiweddarach, ac yna fe wnaethant ffraeo oherwydd iddo wrthod rhoi sigarét iddi.

Dywedodd fod Janet wedi gadael y tŷ ac nad oedd wedi ymosod arni na'i bygwth. Ychwanegodd y byddai ei ffrind yn gallu cadarnhau beth oedd wedi digwydd.

## 46 Beth roedd Heddlu De Cymru yn ei wybod am Oedolyn A

47 Mae gan Oedolyn A 16 o euogfarnau am 39 o droseddau o'r cyfnod rhwng 3 Gorffennaf 1969 hyd at 9 Hydref 2012 am drosedd yn erbyn y person, troseddau dwyn ac arfau tanio, cyffuriau a throseddau sy'n ymwneud â'r Heddlu, y Llysoedd neu'r Carchar.

Mae ei gofnod yn cynnwys rhybuddion hefyd ynghylch ymddygiad treisgar, ymosodwr cam-drin domestig, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) a'i fod yn troseddu ar fechnïaeth.

Mae Oedolyn A yn droseddwr Categori 2 MAPPA, wedi'i reoli ar lefel 1 ac felly nid yw wedi cael ei drafod mewn unrhyw gyfarfodydd MAPPA.

Mae ei statws MAPPA o ganlyniad i ddigwyddiad ym mis Mai 2004. Dychwelodd Oedolyn A a Janet adref ar ôl noson allan ac yna dechreuodd ffrae rhyngddynt. Ymyrrodd mab Janet a oedd yn berson ifanc yn ei arddegau ac ymosododd Oedolyn A arno drwy ei ddyrnu a'i gicio gan arwain at gleisiau ar glustiau a chorff y plentyn (Plentyn A). Cafodd Oedolyn A ei arestio a'i gyhuddo o'r drosedd ac ar 22 Medi 2004 plediodd yn euog yn y llys a derbyniodd 18 mis o garchar a oedd i gyd-redeg â dedfryd am droseddau yn erbyn Janet.

Mae'r Categori wedi ei bennu'n llwyr yn ô trosedd a dedfryd – Mae Trosedd Treisgar atodlen 15 sy'n arwain at ddedfryd o 12 mis neu fwy yn y ddalfa yn cael ei ddynodi'n awtomatig yn achos Categori 2 MAPPA. Ar unrhyw adeg mae 95% o

achosion MAPPA yn cael eu rheoli ar Lefel 1 (Rheolaeth Asiantaeth Gyffredin) sy'n caniatáu i Bartneriaid MAPPA rannu gwybodaeth ond nid yw'n cynnwys 'rheolaeth amlasiantaethol weithredol' h.y. Nid oes angen cyfarfodydd gan fod yr asiantaeth arweiniol (y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)) yn fodlon â'r Cynllun Rheoli Risg.

Ar gyfer troseddwyr MAPPA Lefel 1 disgwylir i'r asiantaeth sy'n rheoli'r achos feddu ar lefel uwch o ymwybyddiaeth o'r risg ac mae rheolwr tîm y Rheolwr Troseddwyr yn cymeradwyo penderfyniad ar lefel reoli bellach. Disgwylir i'r Rheolwr Troseddwyr ymgynghori ag asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig o hyd, ond pwrpas atgyfeirio i Lefel 2 yw cael mynediad at adnoddau / gwybodaeth nad ydynt ar gael i'r Rheolwr Troseddwyr sy'n gwneud y 'gwaith o ddydd i ddydd'.

Mae Oedolyn A wedi cael ei reoli ar brawf drwy gydol cyfnod yr adolygiad. Mae hanes byr o gysylltiadau perthnasol wedi'i gynnwys er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| 08/12/05 | Troseddwr Trais Domestig Cofrestredig gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| 30/12/05 | Cofrestrwyd yn Droseddwr Atodlen 1 oherwydd ymosodiad ar fachgen 14 oed |
| 5/7/06 | Troseddwr Trais Domestig Cofrestredig gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| 3/5/07 | Atgyfeiriad i'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR) |
| 22/8/07 | Wedi'i alw'n ôl i'r ddalfa (Colli apwyntiadau) |
| 10/1/08 | Rhyddhau o'r ddalfa |
| 16/1/08 | Atgyfeiriad i'r CAAR |
| 13/1/09 | Cofrestrwyd yn droseddwr trais domestig Risg Uchel o Niwed Difrifol gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |

| | |
|---|---|
| 25/2/13 | Rhyddhau o’r ddalfa |
| 13/6/13 | Cofrestrwyd yn droseddwr Categori 2, Lefel 1, MAPPA, Risg Uchel o Niwed Difrifol gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| 18/12/13 | Atgyfeiriad i’r CAAR |
| 8/7/15 | Terfynu goruchwyliaeth drwydded |
| 16/7/15 | Risg Ganolig o Niwed Difrifol Cofrestredig (wedi’i ostwng o Risg Uchel o Niwed Difrifol) Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| 24/8/16 | Atgyfeiriad i’r CAAR |

## 48 Dadansoddiad o ymgysylltiad Heddlu De Cymru

49 Roedd digon o dystiolaeth bod swyddogion heddlu unigol yn ymwybodol o'r hanes hir o drais domestig a ddioddefwyd gan Janet wrth law Oedolyn A. Roedd eu hymatebion i alwadau yn brydlon ac yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau cydnabyddedig.

50 Cafodd Oedolyn A ei arestio pan gododd y cyfle i wneud hynny, hyd yn oed pan oedd Janet wedi gwrthod cefnogi erlyniad, a oedd yn cyd-fynd ag arfer da cydnabyddedig ac yn arwydd o feddylfryd cadarnhaol o ran materion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

51 Roedd tystiolaeth hefyd fod swyddogion yn cymryd camau dilynol wrth ganfod tystiolaeth ar ôl y digwyddiad, drwy wneud ymweliadau dychwelyd i wirio lles Janet ac i ennyn datganiad ganddi. Rhoddodd y swyddogion gyngor i Janet hefyd am atgyfeirio i asiantaethau cymorth a oedd ar gael iddi, ac roedd hi'n ymddangos yn ddiolchgar amdano.

52 Roedd asesiadau risg parhaus yn briodol, a arweiniodd at Janet yn destun cynllun gweithredu a grëwyd gan yr uned diogelu a oedd yn cynnwys atgyfeiriad i Atal y Fro,

gweithredu 'Gwyliadwriaeth yr Heddlu' a oedd yn cynnwys mwy o batrolau heddlu ar stryd Janet a chynnwys marcwyr ymateb critigol ar systemau cyfrifiadurol yr heddlu, i rybuddio swyddogion o'r risg i Janet o fod yn ddioddefwr cam-drin domestig.

53 Arweiniodd yr ymosodiad ar Janet ar 7 Gorffennaf 2012 yn briodol at asesiad bod 'risg uchel' iddo ac felly cafodd ei chyfeirio i'r CAAR.

54 Derbyniodd yr heddlu yr hysbysiad am ryddhau Oedolyn A ar ddiwedd ei ddedfryd o dair blynedd am ymosod ar Janet tua mis ymlaen llaw, gan ddangos cyfathrebu da rhwng y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a Heddlu De Cymru. Caniataodd hyn i'w ryddhau gael ei drafod yn lleol, fel y gellid ystyried camau cudd-wybodaeth a rheoli risg priodol, a briffio pob tîm plismona gweithredol.

55 Er i'r heddlu arestio Oedolyn A ar ôl i Janet gwyno ei fod wedi ymosod arni ar 10 Hydref 2015, a'i bod wedyn wedi gwrthod mynd ar drywydd y gŵyn, ni wnaethant ystyried y gorchymyn atal a osodwyd arno dair blynedd ynghynt. Roedd hyn yn gamgymeriad ar ran y swyddogion ymchwilio. Ni chafodd yr achos ei gyfeirio i Wasanaeth Erlyn y Goron i'w ystyried oherwydd nad oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer atgyfeirio, ond pe bai bodolaeth tor gorchymyn atal wedi bod yn amlwg i'r penderfynwyr, byddai'r mater bron yn sicr wedi cael ei gyfeirio i Wasanaeth Erlyn y Goron.

**Sylwadau:** *Roedd y systemau cofnodi priodol ar gael i'r swyddogion ddarganfod bodolaeth y gorchymyn atal ond ni wnaethant eu defnyddio'n iawn. Mae'r mater wedi ei drafod gan reolwyr llinell y swyddogion.*

*Er bod y camgymeriad hwn yn cael ei gydnabod, mae'n debygol iawn, hyd yn oed pe bai camau cadarnhaol wedi'u cymryd a bod Oedolyn A wedi'i arestio am dorri'r*

*gorchymyn, mae'n debygol iawn na fyddai wedi cael ei erlyn. Y rhesymeg yw bod Janet wedi cysylltu ag Oedolyn A pan oedd yng nghyfeiriad ei ffrindiau ac nid i'r gwrthwyneb a fyddai wedi bod yn doriad clir. Yn yr achos annhebygol iddo gael ei ddwyn gerbron y llys, mae'n debygol iawn oherwydd yr amgylchiadau fel y'u cyflwynwyd y byddai wedi ei gael yn ddieuog.*

*Fel y soniwyd yn flaenorol, cydnabyddir y gellid bod wedi ystyried erlyniad di-ddioddefwr, fodd bynnag dylai llais y dioddefwr gael ei glywed a'i ystyried mewn unrhyw benderfyniad ynghylch achosion troseddol. Yn yr achos penodol hwn, dywedodd Janet i ddechrau yr ymosodwyd arni ac yna dywedodd ei bod yn ffrae llafar a gwrthododd dynnu unrhyw luniau o anafiadau gweladwy. Roedd hi'n bendant nad oedd am gefnogi erlyniad. Er gwaethaf ei dymuniadau, cymerwyd camau cadarnhaol a chafodd Oedolyn A ei arestio, gwadodd unrhyw ymosodiad ond cyfaddefodd ei fod ef a Janet wedi anfon negeseuon testun at ei gilydd cyn cwrdd â'i gilydd yn nhŷ'r ffrind. O ganlyniad, mae'n annhebygol iawn y byddai'r dystiolaeth wedi bodloni prawf trothwy Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer achosion a hyd yn oed pe byddai, mae'n annhebygol iawn y byddai'r llys wedi canfod yn erbyn Oedolyn A. Fel y soniwyd yn flaenorol, gallai defnyddio camerâu corff wneud gwahaniaeth yn y dyfodol mewn sefyllfa debyg.*

56 **Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)**

Mae'r GPC yn darparu gwasanaethau i'r Llysoedd, yn bennaf gan baratoi adroddiadau cyn dedfrydu i ddedfrydwyr a barnwyr yn y Llysoedd Ynadon a'r Goron, gan argymell gwarediadau dedfrydu i'r rhai a gafwyd yn euog o droseddau. Ar ôl ei ddedfrydu, mae'r troseddwr yn cael ei ddyrannu naill ai'r GPC neu i Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru i oruchwylio a rheoli ei ddedfryd. Mae'r bobl hynny sy'n cael eu hasesu fel rhai sydd â photensial i achosi niwed difrifol i eraill yn cael eu cadw a'u rheoli gan y GPC. Mae hyn naill ai drwy waredu Dedfrydau Cymunedol neu

os cânt eu dedfrydu i gyfnod o garchar drwy gydol y cyfnod yn y carchar ac yna rhyddhau ar drwydded ar gyfer rhannau o'r ddedfryd.

Mae'r rhai sydd wedi'u rhyddhau ar drwydded yn ddarostyngedig i nifer o amodau ac amod ymddygiad da a gellir eu galw'n ôl i'r carchar pe bai unrhyw un o'r amodau hynny'n cael eu torri.

## 57 Ymgysylltiad ag Oedolyn A

58 Yn ystod cyfnod yr adolygiad, roedd y GPC yn rheoli Oedolyn A pan gafodd gyfnod o garchar am 36 mis. Roedd hyn o adeg ei ddedfrydu yn Llys y Goron Caerdydd ar 9 Hydref 2012 hyd at ddyddiad dod i ben ei drwydded a'i ddedfryd ar 8 Gorffennaf 2015.

59 Rhoddwyd y ddedfryd am drosedd o achosi niwed corfforol gwirioneddol i'w bartner Janet. Roedd Oedolyn A wedi ymosod ar Janet ar 7 Gorffennaf 2012 yn ystod ffrae a achoswyd gan alcohol yn ei chyfeiriad. Roedd wedi ei dyrnu yn eu hwyneb gan arwain at golli dau ddant a briwiau i'r wyneb. Roedd y drosedd hon yn dilyn patrwm sefydledig o drais domestig difrifol yn erbyn Janet ac aelodau o'r teulu.

60 Yn flaenorol, roedd Oedolyn A wedi ei oruchwylio a'i reoli gan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru pan gafodd ei ddedfrydu ar 9 Ionawr 2009 i 30 mis o garchar am y drosedd anafu maleisus. Cafodd ei ryddhau ar oruchwyliaeth trwydded ar 6 Ebrill 2010 a daeth cyfnod ei drwydded a'i ddedfryd i ben ar 5 Gorffennaf 2011. Roedd y drosedd hon wedi digwydd ar ôl i Oedolyn A fod yn yfed gyda nifer o bobl yng nghartref Janet, ffrae gyda'r dioddefwr (nai hŷn Janet) cyn casglu dwy gyllell o'r gegin a thrywanu'r dioddefwr yn rhan uchaf y corff.

61 Cyflawnodd Oedolyn A y drosedd hon pan oedd yn destun rhyddhau ar drwydded ar ôl derbyn cyfnod o 54 mis o garchar yn 2004 am droseddau yn erbyn Janet a'i mab a oedd yn 14 oed ar y pryd. Digwyddodd yr ymosodiadau ar ôl yfed alcohol.

62 Pan oedd ar fechnïaeth am y troseddau hyn, cyn cael ei ddedfrydu, torrodd Oedolyn A amodau ei fechnïaeth drwy gysylltu a chyfarfod â Janet ac ymosod arni eto yn y stryd a stampio arni, ei chicio a'i dyrnu i'w phen.

63 Felly, roedd patrwm hirsefydlog o drais yn sgil alcohol yn yr aelwyd. Roedd gan y ddau barti ddibyniaeth hirsefydlog ar alcohol ac roedd eu cartref yn cael ei ddefnyddio yn aml fel 'tŷ agored' gan gymdeithion eraill sy'n ddibynnol ar alcohol. Cafwyd ffraeon a gweithredoedd o drais dros y blynyddoedd, ac er i Oedolyn A dderbyn cyfnodau sylweddol o garchar byddai'n lleihau ei droseddu a'i gyfrifoldebau am ei weithredoedd yn gyson

64 Yn ystod yr adolygiad, ystyriodd y panel fod y wybodaeth o fewn y carchardai lle'r oedd Oedolyn A wedi treulio ei ddedfryd yn bwysig. Byddai hyn yn caniatáu i'r panel ganfod pa raglenni yr oedd wedi ymgysylltu â nhw, a fyddai'n arwain at drafodaeth ehangach am reoli Oedolion A ar ôl ei ryddhau a'i ymwneud pellach â Janet. Yn anffodus, nid oedd yr adolygiad yn gallu canfod y wybodaeth honno.

## 65 Dadansoddiad o'r ymgysylltiad ag Oedolyn A

66 Dedfrydwyd Oedolyn A yn Llys y Goron Caerdydd i 36 mis o garchar ar 9 Hydref 2012 am yr ymosodiad ar Janet. Ni ofynnodd y llys am baratoi adroddiad cyn dedfrydu. Adeg dedfrydu, gosododd y llys Orchymyn Atal penagored hefyd, yn gwahardd Oedolyn A rhag cysylltu â Janet.

67 Cafodd y swyddog prawf a ddyrannwyd wybodaeth am y drosedd hon yn brydlon gan uned cam-drin domestig yr heddlu yn absenoldeb dogfennaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron a geir fel arfer fel rhan o'r ymholiadau sy’n rhan o’r adroddiad cyn dedfrydu.

68 Cafwyd cyfathrebu amserol a phrydlon â'r goruchwyliwr troseddwyr yng Ngharchar EF y Parc yn hysbysu’r swyddog prawf am fodolaeth y Gorchymyn Atal. Cafwyd trafodaethau ynglŷn ag agwedd negyddol Oedolyn A at y ddedfryd hon, ei wrthodiad blaenorol i gymryd rhan mewn gwaith sy'n canolbwyntio ar drosedd a'r newid annhebygol yn yr agwedd hon.

69 Ar 12 Tachwedd 2012 cynhaliwyd cyfarfod cynllunio dedfryd yng Ngharchar EF y Parc gyda'r swyddog prawf, goruchwyliwr troseddwyr ac Oedolyn A. Mae cofnodion yn dangos bod Oedolyn A wedi gwrthod cymryd rhan mewn trafodaeth ystyrlon ynghylch ei ymddygiad troseddol ac wedi gwrthod cymryd rhan mewn unrhyw ymyriadau i fynd i'r afael â hyn.

70 Yn ddiweddarach y mis hwnnw, cwblhawyd System Asesu Troseddwyr y ddalfa ar Oedolyn A. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu troseddau blaenorol a chyfredol a gyflawnwyd yn erbyn Janet. Nodwyd bod Oedolyn A wedi torri amodau trwydded 'dim cyswllt' â Janet ar ddedfryd flaenorol a'i fod wedi byw gyda hi. Cafodd ei asesu i fod yn risg uchel o niwed difrifol yn y dyfodol i Janet.

> *Mae'r gwasanaethau prawf a charchardai ledled y wlad yn defnyddio system o'r enw System Asesu Troseddwyr ar gyfer asesu risgiau ac anghenion troseddwr.*
>
> *Mae asesu risgiau ac anghenion yn rhan annatod o'r gwaith y mae swyddogion prawf yn ei wneud wrth asesu troseddwyr; nodi'r risgiau y maent yn eu peri, penderfynu sut i leihau'r risgiau hynny a sut i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol yn effeithiol.*

71 Tua diwedd mis Tachwedd 2012, ymwelodd Swyddog Cyswllt Dioddefwyr y gwasanaeth prawf â Janet, lle datgelodd flynyddoedd lawer o gam-drin domestig ac nad oedd am ailddechrau ei pherthynas ag Oedolyn A pan gaiff ei ryddhau, gan gydnabod y Gorchymyn Atal penagored. Gofynnodd y dylid cynnwys amodau trwydded dim cyswllt ychwanegol a'i wahardd o'r dref leol. O'r ymweliad hwn gwnaed atgyfeiriadau i Cymorth i Ddioddefwyr ac i Atal y Fro.

72 Ar 18 Rhagfyr 2013 trafodwyd Janet yng Nghynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR) y Fro. Gofynnwyd yn y cyfarfod fod trwydded Oedolyn A yn cynnwys parth gwahardd yn y dref ger lle'r oedd Janet yn byw. Cytunwyd y byddai adran dai y Fro yn lletya Oedolyn A i ffwrdd o'r dref mewn eiddo yng Nghaerdydd, neu y byddai'n cynorthwyo gyda rhentu preifat.

73 Rhyddhawyd Oedolyn A ar drwydded o 7 Ionawr 2014 hyd at 8 Gorffennaf 2015, gyda phwyslais ar Oedolion A yn ymgartrefu mewn llety a chyflogaeth. Erbyn diwedd cyfnod y drwydded/dedfryd roedd wedi ymgartrefu mewn llety â chymorth a thrwy asiantaeth gyflogaeth roedd yn gweithio ar gontract dros dro fel llafurwr/dyn tir.

74 Yn gyffredinol, roedd ei gydymffurfiaeth â'r cyfarwyddiadau adrodd yn ystod ei oruchwyliaeth trwydded yn dda, dim ond un llythyr rhybuddio a gafodd ei gyhoeddi.

75 Dywedodd Oedolyn A drwy gydol cyfnod y drwydded ei fod yn parhau i ymatal rhag alcohol. Nid oedd dim yn ei gyflwyniad, ei ymddygiad, na'i ymarweddiad i ddangos ei fod wedi dechrau yfed eto. Roedd triniaeth ar gyfer cwyn ar yr afu yn ystod y cyfnod yn y carchar o'i ddedfryd wedi bod yn bryder iechyd difrifol iddo.

76 Trwy gydol cyfnod y drwydded parhaodd Oedolyn A i gael cefnogaeth gan ei ferch a'i wyrion; roedd ei weithiwr cymorth tenantiaeth yn ei gefnogi hefyd. Nid oedd unrhyw arwydd ei fod wedi cael unrhyw gyswllt â Janet yn ystod y cyfnod hwn. Datgelodd gwiriad gydag uned Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu yn y Fro nad oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi'u hadrodd rhwng y partïon. Roedd yr holl arwyddion yn ystod cyfnod y drwydded yn awgrymu bod Oedolyn A yn cydymffurfio'n llawn ag amodau'r Gorchymyn Atal.

77 Ar ddiwedd cyfnod ymgysylltiad y gwasanaeth prawf ag Oedolyn A ar 8 Gorffennaf 2015 aseswyd ei fod wedi dangos agwedd gadarnhaol tuag at ei drwydded a'i oruchwyliaeth. Yn ystod cyfnod y drwydded cafodd ei arestio am drosedd nad oedd yn gysylltiedig â Janet ond cafodd y mater hwn ei wrthod yn ddiweddarach. Roedd wedi cydymffurfio'n llawn â chyfarwyddiadau ei reolwr troseddwr, wedi mynychu'n brydlon pan fu angen gan amlaf, ac wedi bod yn gwrtais a chydweithredu bob amser heb ddangos unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol nac andwyol.

78 Ar ddiwedd ei reolaeth statudol ymddengys ei fod wedi'i ysgogi i barhau i beidio â throseddu a’i fod wedi gwneud newidiadau sylweddol yn ei ffordd o fyw i hwyluso hyn drwy ymatal rhag yfed alcohol, byw mewn llety â chymorth, a chynnal cyflogaeth a sefydlogrwydd ariannol. Ni fu unrhyw arwydd ei fod wedi ceisio ailddechrau ei berthynas flaenorol â Janet yn ystod y cyfnod hwn.

### 79 Cyngor Bro Morgannwg - Gwasanaethau Oedolion

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig ystod o wasanaethau i ddinasyddion y Fro. Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yn cynnig cymorth i bobl sydd ei angen i fyw eu bywydau mor annibynnol â phosibl. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth a gwasanaethau i bobl yr effeithir arnynt gan broblemau iechyd meddwl a phroblemau cyffuriau ac alcohol, a ddarperir fel rhan o wasanaeth integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Daeth Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2016. Mae Rhan 7 o'r ddeddf hon yn amlinellu'r dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol a phartneriaid statudol i ddiogelu Oedolion mewn Perygl. Mae'r ddeddf yn diffinio 'Oedolyn mewn Perygl' fel person sy'n 18 oed neu'n hŷn sydd:

(a) Yn profi neu mewn perygl o brofi cam-drin neu esgeulustod
(b) Sydd ag anghenion gofal a chymorth (p’un ai a yw’r awdurdod yn bodloni unrhyw rai o’r anghenion hynny ai peidio), ac
(c) O ganlyniad i’r anghenion hynny, yn methu amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu’r perygl o hynny

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 hefyd yn gosod 'Dyletswydd i Adrodd’ lle mae gan weithiwr o'r Awdurdod Lleol neu bartner statudol ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon i'r Awdurdod Lleol perthnasol,

ynghylch oedolyn a allai fod mewn perygl. Ar ôl ei adrodd mae gan yr Awdurdod Lleol o dan Adran 126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ddyletswydd i wneud ymholiadau Diogelu Oedolion.

O ran amgylchiadau Janet, er bod y ddeddfwriaeth ar waith am bedwar mis cyn ei marwolaeth, nid oedd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o gyfrifoldebau asiantaethau ynghylch y ddyletswydd i adrodd wedi'u hymgorffori'n llawn yn ymarferol. Cyhoeddwyd y Canllawiau Statudol mewn cysylltiad â Rhan 7 ar ôl deddfu'r Ddeddf ac nid oeddent ar gael ym mis Awst 2016.

80 **Dadansoddiad o ymgysylltiad Cyngor Bro Morgannwg – Gwasanaethau Oedolion**

Dim ond ar ôl y digwyddiad a arweiniodd at ei marwolaeth y cafodd Janet ei chyfeirio i'r Gwasanaethau Oedolion ac ni wnaed unrhyw gyswllt uniongyrchol â hi.

81 Nid oedd gan y gwasanaeth unrhyw gyswllt ag Oedolyn A.

82 **Cyngor Bro Morgannwg - Adran Dai**

Mae gan y Tîm Rheoli Tai y cyfrifoldeb cyffredinol o reoli tai cyngor yn y Fro, gan gynnwys rheoli cyfrifon rhent, rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol, datrys materion tenantiaeth, darparu llety gwarchod i bobl hŷn a rheolaeth gyffredinol tenantiaeth/ cymdogaeth. Mae'r adran hefyd yn gweithredu atgyweiriadau sy'n ofynnol i eiddo, yn darparu cyngor ariannol i denantiaid, yn cefnogi tenantiaid ag anghenion ychwanegol, yn mynychu cyfarfodydd cymunedol rheolaidd fel byrddau trigolion, yn ogystal â chyfarfodydd rheoli risg fel CAAR, Cyfarfodydd Amddiffyn Plant neu'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd.

83 **Dadansoddiad o ymgysylltiad Cyngor Bro Morgannwg – Adran Dai**

### Janet

Cafodd yr Adran Dai gysylltiad rheolaidd â Janet o 1992 ac o 2011 ymlaen, ac roedd llawer o hyn yn ymwneud ag ôl-ddyledion rhent. Mae'r Tîm Rheoli Tai yn rhan o'r broses CAAR ac roeddent yn ymwybodol o hanes Janet o fod yn ddioddefwr cam-drin domestig yn ogystal â'i hanghenion cymhleth o fewn y teulu a bod cymorth ar waith iddi gan ddarparwyr priodol. Cydnabyddir hefyd fod ôl-ddyledion rhent a dyled yn gyfleoedd i gamdriniwr hefyd[1]. Mae'r adolygiad wedi nodi bod cam-drin economaidd yn ymddygiad parhaus i lawer o ddioddefwyr ac mae hyn yn cael ei gydnabod gan asiantaethau, yn benodol o fewn y Tîm Rheoli Tai.

Ers hynny, mae'r holl staff yn y Tîm Rheoli Tai wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth cam-drin domestig lefel 1 yn ogystal â mynychu hyfforddiant mwy arbenigol gan gynnwys y cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau er mwyn deall rhai o'r materion mwy cymhleth yn well, fel y rhai a gododd yn yr achos hwn.

84 Roedd Oedolyn A mewn llety gwarchod. Er iddo nodi bod ganddo ffrindiau y tu allan i'r cynllun, nid oedd dim i nodi bod unrhyw bryderon am ddiogelwch Janet heblaw y rhai yr oedd yr asiantaethau yn ymwybodol ohonynt eisoes.

### 85 Oedolyn A

Roedd Oedolyn A yn destun y weithdrefn ôl-ddyledion rhent hefyd, ceisiwyd gorchymyn troi allan yn y llys ar 4 Awst 2016, a arweiniodd at orchymyn ildio

[1] Sanders, C. (2014). Economic Abuse in the Lives of Women Abused by an Intimate Partner.*Violence Against Women*, 21(1), tt.3-29.

meddiant 28 diwrnod, fodd bynnag cafodd ei ddedfrydu i gyfnod o garchar ac ailfeddiannwyd y tŷ cyn y gellid gweithredu hyn. Cafodd hefyd y gefnogaeth briodol gan Gydlynydd y Cynllun Gwarchod gan gynnwys darllen llythyrau a llenwi ffurflenni. Derbyniodd adolygiadau rheolaidd i'w gynllun cymorth yn unol â gofynion cytundebol a osodwyd gan y Tîm Cefnogi Pobl (gweler isod).

86 Oherwydd yr adolygiad hwn, mae'r adran yn cydnabod y gellid gwella ei dulliau presennol o gofnodi nodiadau achos i ddarparu gwell dystiolaeth o'u rhannu gwybodaeth a'u cydweithio ag asiantaethau eraill. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno proses rheoli achos i gofnodi nodiadau achos, cysylltiadau ac atgyfeiriadau a wneir mewn cysylltiad â thenantiaid.  Mae hyn wedi galluogi'r tîm i gofnodi gwybodaeth yn well yn ogystal â gallu rhannu hyn â phartneriaid perthnasol.

Mae'r Tîm Rheoli Tai wedi sicrhau presenoldeb rheolaidd yng nghyfarfodydd CAAR; mae hyn yn galluogi'r tîm i rannu gwybodaeth yn ogystal â bod yn rhan o'r broses rheoli risg.  Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, mae'r tîm yn gweithredu proses o sicrhau bod gan bob dioddefwr a throseddwr o fewn eiddo Cartrefi'r Fro faner dangosydd wedi'i hychwanegu at y cyfeiriad ar y gronfa ddata Rheoli Tai.  Mae gan yr holl staff o fewn y Gwasanaethau Tai fynediad i'r gronfa ddata hon ac maent yn ymwybodol o'r system farcio.

Mae'r adolygiad wedi tynnu sylw hefyd at ble y gall yr adran, fel landlord, dynnu sylw at ffactorau risg posibl ac addasu ymatebion yn seiliedig ar y rhain.  Er enghraifft, wrth gymryd camau troi allan yn erbyn tenant sy'n cael ei adnabod fel troseddwr cam-drin domestig, gan gynnwys pan nad yw'n byw gyda'r dioddefwr, mae'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r Tîm Rheoli Tai.  Yna gellir rhoi mesurau diogelu ar waith ar gyfer dioddefwyr gan gynnwys hysbysu'r heddlu drwy'r broses 101, cyfeirio achosion i CAAR i'w hadolygu o ystyried y risg uwch a rhannu gwybodaeth â darparwyr cymorth arbenigol fel Atal Y Fro.

87 **Dadansoddiad o ymgysylltiad Cyngor Bro Morgannwg – Adran Datrysiadau Tai**

Mae'r Tîm Datrysiadau Tai yn darparu cymorth, cyngor a chefnogaeth ymwneud â thai i aelwydydd a allai fod dan fygythiad neu sy'n ddigartref. Mae'r tîm yn cynnig cymorth i helpu aelwydydd, lle bo hynny'n briodol, i allu aros yn eu cartref a thrwy hynny atal digartrefedd lle bo hynny'n bosibl. Mae'r tîm hefyd yn helpu i nodi a sicrhau llety addas amgen, gan gynnwys yn y sector rhentu preifat. Mae llawer o'r aelwydydd sydd angen ein cefnogaeth yn agored i niwed ac yn aml mae angen atgyfeiriadau ar gyfer cymorth ac eiriolaeth ychwanegol a gynigir trwy Wasanaeth Cefnogi Pobl y Cyngor.

88 **Janet**

Ym mis Mehefin 1998 gwnaeth Janet, a ddatganodd ar y pryd fod ei haelwyd yn ei chynnwys hi a thri phlentyn ifanc (Plentyn A, Plentyn B a Phlentyn C) gais. Dywedodd hefyd fod ganddi letywr gwrywaidd. Cafodd y cais ei ganslo ym mis Awst 1998, yn dilyn cynnig tai cymdeithasol parhaol i'r teulu.

89 **Oedolyn A**

Cyflwynwyd Oedolyn A yn ddigartref gyntaf yn 2007 ac yna eto ym mis Ionawr 2014. Cafodd ei roi mewn llety dros dro ac yna darparwyd tai cymdeithasol parhaol iddo ym mis Mehefin 2014, lle bu'n aros tan ei garcharu am lofruddio Janet.

90 Roedd yr holl gyngor a chymorth a ddarparwyd i Janet ac Oedolyn A yn cyd-fynd â pholisïau a phrosesau mewnol yn unol â deddfwriaeth.

91 **Cyngor Bro Morgannwg - Tîm Cefnogi Pobl**

Mae'r Tîm Cefnogi Pobl yn rheoli atgyfeiriadau ar gyfer cleientiaid agored i niwed sy'n ceisio cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Gall hyn gynnwys teuluoedd agored i niwed a phobl sy'n profi cam-drin domestig. Maent yn monitro'r cymorth y mae cleientiaid yn ei dderbyn, ond nid ydynt yn darparu cymorth eu hunain yn uniongyrchol.

92 **Dadansoddiad o ymgysylltiad Tîm Cefnogi Pobl Bro Morgannwg**

**Janet**

Cyfeiriwyd Janet i Gymdeithas Tai Taf rhwng Gorffennaf 2011 a Mehefin 2012 am gymorth sy'n gysylltiedig â thai fel person hŷn sy'n agored i niwed. Roedd ei phroblemau yn cynnwys cam-drin domestig, iechyd meddwl, alcohol, salwch cronig, materion cyfiawnder troseddol a symudedd corfforol.

93 Yna cafodd Janet ei chyfeirio i Gymdeithas Tai Gofal Hafod (gweler yn nes ymlaen) rhwng Ionawr 2013 a Hydref 2015 ar gyfer cymorth ariannol a rheoli dyledion, defnyddio alcohol a materion iechyd meddwl a chorfforol. Yng nghofnodion Janet roedd gwybodaeth hanesyddol am gam-drin domestig ac roedd hwn yn gyfle i gael rhagor o wybodaeth a bod yn ymwybodol o'r darlun llawnach.

94 **Oedolyn A**

Cefnogwyd Oedolyn A gan Gymdeithas Tai Taf rhwng Mehefin 2014 a Mawrth 2015, ar ôl cael ei atgyfeirio am fod yn ddigartref, bod ag anawsterau, problemau cyfiawnder troseddol, salwch cronig, symudedd corfforol a phroblemau iechyd meddwl. Cafodd ei gefnogi hefyd gan Gynllun Wardeniaid Redlands rhwng Mehefin 2014 a Medi 2015 a gan Wasanaeth Larwm Cymunedol y Fro yn ystod yr un cyfnod.

## 95 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaethau iechyd i breswylwyr ac ymwelwyr yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Darperir Practis Cyffredinol (gwasanaethau meddygon teulu) o dan Gontract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol 2004, sy'n gyfagos i Fwrdd Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Fel asiantaeth mae'r gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr iechyd proffesiynol yn amrywiol ac yn cwmpasu pob arbenigedd meddygol; mae'r rhan fwyaf o bobl yn hysbys i'r gwasanaethau iechyd o'u genedigaeth i farwolaeth, gan gynhyrchu deunydd sylweddol wedi'i gofnodi.

## 96 Beth roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ei wybod am Janet

O fewn y cyfnod cwmpasu, cyflwynodd Janet i'r Uned Achosion Brys gyntaf gydag arddwrn wedi torri ar 30 Medi 2011. Mynychodd dri apwyntiad dilynol i adolygu ei hanaf, gyda'r cast yn cael ei dynnu yn yr un olaf, a ddatgelodd fod y toriad wedi gwella; hysbyswyd ei meddyg teulu yn briodol. Trefnwyd apwyntiadau iddi fynychu'r adran ffisiotherapi hefyd, ond ni fynychodd yr un ohonynt.

97 Ymwelodd meddyg teulu Janet â hi gartref ar 6 Mawrth 2012 a nododd ei bod yn 'alcoholig ac eiddil' a'i bod wedi dweud ei bod yn yfed tair i bedair potel o seidr y dydd. Cynllun y meddyg teulu oedd atgyfeirio Janet yn ôl i Ganolfan Cyffuriau ac Alcohol Newlands, sy'n rhan o'r Uned Ddibyniaeth Gymunedol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Am 9pm ar yr un diwrnod, ymwelodd Janet â'r Uned Achosion Brys gyda gwaedu trwyn, a dywedodd mai dyma'r ail dro i hyn ddigwydd yn ystod y ddau ddiwrnod diwethaf.

98 Chwe diwrnod yn ddiweddarach, gwelodd Janet ei meddyg teulu eto sy'n nodi ei bod hi'n 'gwneud yn dda iawn'. Dywedodd ei bod wedi rhoi'r gorau i yfed wythnos yn ôl ac nad oedd wedi dioddef unrhyw sgil-effeithiau a'i bod wedi gwrthod mewnbwn Newlands**.** Fodd bynnag, dywedodd ei bod hi'n cael problemau cysgu, felly cafodd feddyginiaeth dawelyddu gyda'r nos am gyfnod byrdymor. Cynigiodd y meddyg teulu feddyginiaeth arbenigol iddi hefyd i'w helpu i sicrhau nad oedd hi'n dechrau yfed alcohol eto, ond gwrthododd Janet ei derbyn.

99 Ar 7 Gorffennaf 2012, cafodd Janet ei chludo mewn ambiwlans i'r Uned Achosion Brys; dywedodd ei bod wedi cael ei thagu a'i dyrnu yn y geg gan ei phartner. Roedd ganddi glwyf i'w gwefus uchaf a chrafiad uwchben ei gwefus uchaf. Roedd ei dannedd gwaelod yn rhydd, a dywedodd Janet fod ei hysgwydd dde yn boenus. Ar ôl archwilio ei hanafiadau, cafodd Janet ei rhyddhau gartref gyda'i mab. Mae'r nodiadau yn nodi ei bod yn ddiogel iddi fynd adref.

100 Y tro nesaf i Janet weld gweithiwr iechyd proffesiynol oedd ar 24 Ionawr 2014, pan aeth i'r feddygfa. Dywedodd wrth y meddyg teulu fod ei chynbartner, sydd wedi bod yn gamdriniol yn gorfforol yn y gorffennol, wedi ei ryddhau o'r carchar wythnos yn ôl. Dywedodd fod gorchymyn atal ar waith, ond bod ofn mawr arni y byddai'n nesáu ati. Dywedodd iddi feddwl ei bod wedi clywed curo ar ei ffenestr a'i bod wedi dweud wrth yr heddlu a oedd ar 'lwybr cyflym', pe bai unrhyw beth yn digwydd. Ychwanegodd nad oedd hi'n cysgu'n dda oherwydd hynny. Gwnaethant drafod y posibilrwydd iddi fynd i aros yng nghartref ei merch, ond dywedodd Janet nad oedd hynny'n opsiwn.

101 Ar 8 Mai 2014, gwelodd Janet feddyg teulu arall ac adroddodd ei bod yn llewygu a gweithgaredd ffitio posibl. Cafodd ei hatgyfeirio i'r adran niwroleg yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

**Sylwadau:** *Mynychodd Janet nifer o apwyntiadau niwroleg dros y misoedd canlynol lle cafodd ei chyfeirio i gardiolegydd hefyd. Roedd y niwrolegydd yn pryderu am lefel yfed alcohol Janet a dywedodd wrthi'n ddi-flewyn-ar-dafod bod angen iddi ei lleihau. Dyfalodd y niwrolegydd mewn llythyr at y meddyg teulu y gallai achos llewygu Janet fod yn ffenomena sy'n gysylltiedig ag alcohol.*

102 Ar 19 Mehefin 2014, aeth Janet i’r feddygfa yn cwyno am boen yn ei brest gan ddweud ei bod wedi syrthio pan oedd yn feddw bythefnos ynghynt. Roedd ganddi boen ar ei hochr dde hefyd, cleisiau i lawr ei choes a dywedodd fod ei hasennau yn brifo. Cafodd ei harchwilio, ond nid oedd y meddyg o’r farn bod angen ymyrraeth feddygol.

103 Roedd ymweliad nesaf Janet â'i meddyg teulu ar 28 Awst 2014. Roedd hi gyda gweithiwr cymorth a dywedodd ei bod wedi cwympo ond nad oedd yn cofio gwneud hynny. Nid oedd angen ymyrraeth feddygol.

104 Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, cafodd Janet ei chludo mewn ambiwlans i'r ysbyty. Roedd ffrind wedi ei gweld yn llewygu a syrthio ac yna colli ymwybyddiaeth am ychydig funudau. Ar ôl profion, cafodd Janet ei rhyddhau adref y diwrnod canlynol. Cofnodwyd yn ei nodiadau ei bod yn ddibynnol ar alcohol, a'i bod wedi yfed alcohol cyn y digwyddiad. Ni chofnodwyd enw'r ffrind.

## 105 Beth roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ei wybod am Oedolyn A

Ni fydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn datgelu gwybodaeth iechyd am Oedolyn A ar gyfer yr adolygiad diogelu hwn, heb ei ganiatâd ymlaen llaw. Maen nhw wedi gofyn am ei ganiatâd, ond nid yw wedi ei roi hyd yma.

106 Gwnaeth cadeirydd yr adolygiad hwn bwyso ar y Bwrdd Iechyd Prifysgol nad oes gan y panel adolygu ddiddordeb mewn cynnal 'ymarfer chwilota' i gofnodion meddygol Oedolion A, ac mai’r unig ddiddordeb yw mewn unrhyw wybodaeth a allai fod yn uniongyrchol berthnasol ac yn gymesur â nodau'r adolygiad dynladdiad domestig. Gofynnwyd iddynt gymhwyso barn broffesiynol i sicrhau mai dim ond data personol sy'n ddigonol ac sy'n uniongyrchol berthnasol i'r adolygiad hwn oedd yn cael ei ddatgelu ac na ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol, er enghraifft am faterion meddygol arferol neu bersonol.

107 Barn y panel adolygu yw bod prosesu'r data yn angenrheidiol er mwyn arfer y rhwymedigaethau o dan ddeddfiad, sef Adran 9 (3)(a) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004, er mwyn arfer unrhyw swyddogaethau'r Goron, Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth, ac er mwyn arfer unrhyw swyddogaethau eraill o natur gyhoeddus a arferir er budd y cyhoedd gan unrhyw berson.

108 Wedi'i gynnwys yn y wybodaeth a ddarparwyd yn y templed adolygiad rheoli unigol ar gyfer yr adolygiad, roedd y dyfyniad canlynol o ganllawiau statudol y Swyddfa Gartref:

*'Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn llywodraethu diogelu data personol pobl fyw ac yn gosod rhwymedigaethau ar awdurdodau cyhoeddus i ddilyn 'egwyddorion diogelu data'. Mae tuedd i faterion diogelu data mewn cysylltiad ag ADD ddod i'r amlwg mewn cysylltiad â mynediad at gofnodion, er enghraifft cofnodion meddygol. Ni fyddai rhwymedigaethau diogelu data fel arfer yn berthnasol i unigolion sydd wedi marw ac felly ni ddylai cael mynediad at ddata am ddioddefwyr cam-drin domestig sydd wedi marw at ddibenion ADD beri anhawster fel arfer – mae hyn yn berthnasol i'r holl gofnodion sy'n ymwneud â'r ymadawedig, gan gynnwys y rhai a gedwir gan gyfreithwyr a chynghorwyr. Yn achos person byw, er enghraifft y troseddwr, mae'r*

*rhwymedigaethau yn berthnasol. Cydnabyddir bod rhai ardaloedd lleol wedi wynebu gwrthwynebiad gan glinigwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol wrth geisio rhyddhau cofnodion meddygol troseddwyr.*

*Mae'r Adran Iechyd yn annog clinigwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol i gydweithredu ag adolygiadau dynladdiad domestig a datgelu'r holl wybodaeth berthnasol am y dioddefwr a, lle bo hynny'n briodol, yr unigolyn a achosodd eu marwolaeth ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. Pan fo deiliaid cofnodion o'r farn bod rhesymau pam nad yw datgeliad llawn o wybodaeth person o ddiddordeb i adolygiad yn briodol (e.e. oherwydd rhwymedigaethau cyfrinachedd neu ystyriaethau hawliau dynol eraill), dylid cymryd y camau canlynol*:

a) *Dylai'r tîm adolygu gael gwybod am fodolaeth gwybodaeth sy'n berthnasol i ymchwiliad ym mhob achos; a*

b) *Dylid trafod y rheswm dros bryder am ddatgelu gyda'r tîm adolygu a gwneud ymdrech i ddod i gytundeb ar drin cofnodion yn gyfrinachol neu olygu cynnwys cofnodion yn rhannol.*

*Mae'r Adran Iechyd yn glir, lle mae tystiolaeth i awgrymu bod person yn gyfrifol am farwolaeth y dioddefwr, y dylid rhoi eu cyfrinachedd o'r neilltu er budd y cyhoedd ehangach.*

*Mae'r Adran Iechyd yn cydnabod bod gan ADD gyfochredd cryf ag Adolygiadau Achosion Difrifol plant. Mae canllawiau yn cynghori meddygon y dylent gymryd rhan lawn yn yr adolygiadau hyn. Mae'n parhau drwy ddweud, "Pan fydd pwrpas cyffredinol adolygiad i amddiffyn plant neu bobl ifanc eraill rhag risg o niwed difrifol, dylech rannu gwybodaeth berthnasol, hyd yn oed pan nad yw plentyn neu berson ifanc neu ei rieni yn cydsynio." Mae'r Adran Iechyd yn credu ei bod yn rhesymol mai*

*dyma'r egwyddor y dylai meddygon ei dilyn wrth gydweithredu ag ADD. Ategwyd y weithred hon ymhellach gan argymhellion yn nogfen yr Adran Iechyd 'Strike the Balance' (2012)'* (Cyfeiriad gwe wedi'i ddarparu).

109 Mae'r panel adolygu yn deall yn llawn y sefyllfa anodd y mae darparwyr gwasanaethau iechyd yn ei chael eu hunain ynddi o ran datgelu gwybodaeth feddygol am bobl nad ydynt wedi cydsynio i'w rhyddhau. Argymhelliad sy'n deillio o'r adolygiad hwn fydd y dylai'r llywodraeth geisio darparu cyfeiriad cliriach ar y mater.

## 110 Dadansoddiad o ymgysylltiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cyflwynodd Janet i'r gwasanaethau iechyd 24 gwaith yn ystod cyfnod cwmpasu'r adolygiad. Ar ddwy o'r adegau hynny datgelodd ei bod yn ddioddefwr cam-drin domestig wrth law ei phartner. Y cyntaf o'r adegau hynny oedd pan gafodd ei chludo i'r ysbyty mewn ambiwlans ym mis Rhagfyr 2012; roedd yr heddlu yn gysylltiedig, a chafodd ei phartner ei arestio. Cafodd ei rhyddhau adref gyda'i mab (oedolyn) ac mae ei nodiadau meddygol yn dangos ei bod yn ddiogel iddi wneud hynny. Nid oedd yn ymddangos bod yn staff yn gwybod p’un a oedd ei phartner yn dal i fod yn y ddalfa na pha fesurau allai fod wedi bod yn angenrheidiol i sicrhau ei bod yn ddiogel iddi fynd adref. Nid oes dim yn y nodiadau i awgrymu y gofynnwyd i Janet p’un a oedd hwn y tro cyntaf iddi ddioddef cam-drin domestig ac nid oes dim byd wedi'i gofnodi i ddweud ei bod wedi cael unrhyw wybodaeth am wasanaethau cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig.

111 Byddai unrhyw un yn sefyllfa Janet, sy'n cael ei gweld yn yr adran achosion brys heddiw, yn cael ei adnabod fel dioddefwr cam-drin domestig ac yn cael cynnig cymorth gan wasanaethau priodol. Cyflwynodd Adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn

Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yr egwyddor 'Gofyn a Gweithredu' i dargedu ymholiadau arferol am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae staff perthnasol yr Uned Achosion Brys wedi derbyn hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ac yn dilyn y broses pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

112 Yn ogystal, ers mis Hydref 2016, mae Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol Iechyd wedi'i benodi a chysylltir â’r unigolyn hwn pan fydd unrhyw un mewn sefyllfa debyg i Janet yn dod i’r adran, fel y gellir gwneud trefniadau i gwrdd i drafod anghenion y claf.

113 Yr ail dro y soniodd Janet am gam-drin domestig oedd pan ddywedodd wrth ei meddyg teulu ym mis Ionawr 2014 fod ei chynbartner a oedd yn cam-drin yn gorfforol wedi cael ei ryddhau o'r carchar yn ddiweddar a'i bod ofn mawr arni y byddai'n nesáu ati, er bod gorchymyn atal ar waith. Nid oedd hi'n cysgu'n dda a chafwyd rhywfaint o drafodaeth fod tabledi cysgu ac alcohol yn atebion byrdymor yn unig. Nid oes dim i ddangos bod unrhyw drafodaeth am fesurau diogelwch nac am ddiogelwch uniongyrchol Janet, na’i hatgyfeirio i asiantaeth gymorth briodol neu CAAR.

114 Mae rhai meddygfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi bod yn ymwneud â'r rhaglen IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch) sy'n rhaglen cymorth hyfforddi ac atgyfeirio ar gyfer trais domestig a cham-drin domestig sy'n seiliedig i bractisau cyffredinol. Meysydd craidd y rhaglen yw hyfforddiant ac addysg, ymholiadau clinigol, llwybrau gofal a llwybr atgyfeirio uwch i wasanaethau trais domestig arbenigol. Mae addysgwr eiriolwr yn gysylltiedig â phractis cyffredinol ac wedi'i leoli mewn gwasanaeth trais domestig arbenigol lleol. Mae'r addysgwr eiriolwr yn gweithio mewn partneriaeth ag arweinydd clinigol lleol i gyd-ddarparu'r hyfforddiant i bractisau. Dechreuodd y rhaglen hon ddiwedd 2014.

115 Pan aeth Janet i weld ei meddyg teulu ar 1 Ebrill 2014, ni chafodd y mater o gam-drin domestig yr oedd hi wedi'i ddatgelu yn flaenorol ei godi gan y meddyg teulu. O ystyried gymaint o ofn oedd ar Janet, roedd cyfle amlwg i adolygu sut roedd hi ac a oedd hi wedi profi unrhyw gamdriniaeth neu anawsterau pellach gan ei chyn-bartner ac a oedd angen cefnogaeth arni.

116 Mae perthynas gref rhwng alcohol a cham-drin a thrais domestig, a thrwy lawer o gyswllt Janet â meddygon teulu, staff ysbyty a meddygon ymgynghorol, roedd y ffaith ei bod yn ddibynnol ar alcohol yn hysbys. Ar wahân i ddwy adeg pan drafododd ei meddyg teulu gyda Janet yr angen iddi gael cymorth i fynd i'r afael â'i lefelau yfed alcohol (cymorth y gwrthododd), nid oes unrhyw gofnod iddi gael cynnig gwasanaethau cymorth i'w helpu i fynd i'r afael ag ef. Collwyd sawl cyfle gan staff iechyd a oedd yn ymwybodol o'i dibyniaeth ar alcohol, ond nid oeddent yn ystyried bod hyn yn cynyddu pa mor agored i niwed yr oedd hi yn emosiynol nac yn gorfforol na'i fod yn ei gwneud hi'n fwy agored i ddioddef trais domestig.
Cydnabyddir bod defnydd alcohol Janet yn cael ei reoli o safbwynt meddygol, ond cydnabyddir hefyd fod dioddefwyr cam-drin domestig yn defnyddio alcohol fel modd o ymdopi â chamdriniaeth, neu fod y cam-drin yn achosi'r ddibyniaeth[2]

117 Mynychodd Janet leoliadau iechyd gydag anafiadau sawl gwaith, er enghraifft, gydag arddwrn wedi torri, trwyn yn gwaedu, a phan oedd hi wedi syrthio ac wedi llewygu. Nid oedd yn ymddangos bod staff wedi ystyried y gallent fod wedi cael eu hachosi yn sgil trais domestig, er ei bod wedi datgelu ei bod wedi dioddef trais domestig yn 2012. Erbyn hyn mae system fflagio ar nodiadau cleifion pan fydd dioddefwr wedi gwneud datgeliad o gam-drin domestig.  Mae hyn yn sicrhau, os bydd dioddefwyr

[2] Rice C, Mohr CD, Del Boca FK, Mattson ME, Young L, Brady K, Nicklass C. Self-reports of physical, sexual and emotional abuse in an alcoholism treatment sample. Journal of Studies on Alcohol. 2001;   62:114–123.

yn mynychu yn y dyfodol, bydd staff yn cael eu rhybuddio fel y gallant gymryd camau 'Gofyn a Gweithredu', pan fo'n ddiogel gwneud hynny.

118 **Gwasanaethau Trais Domestig Atal y Fro**

119 Mae Gwasanaethau Trais Domestig Atal y Fro yn sefydliad unigryw sydd wedi ymrwymo i ddileu cam-drin a thrais domestig. Yn ogystal â darparu lloches a chymorth unigol, datblygu gwasanaethau trais / cam-drin domestig a rhywiol ar gyfer yr 21ain Ganrif fu'r grym sbarduno. Ei nod allweddol yw gweithredu i wella gwasanaethau a darparu gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Dros y naw mlynedd diwethaf, mae Atal Y Fro wedi datblygu ystod o wasanaethau ymyrraeth gynnar, atal ac addysg sy'n unigryw yng Nghymru.

120 **Beth roedd Gwasanaethau Trais Domestig Atal y Fro yn ei wybod am Janet**

Roedd ymgysylltiad Atal y Fro â Janet drwy'r Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig drwy'r CAAR rhwng Gorffennaf 2012 a Hydref 2012, sef y cyfnod rhwng areiniad Oedolyn A a'i draddodi i Lys y Goron ar ôl iddo gael ei arestio am ymosod arni.

121 **Beth roedd Gwasanaethau Trais Domestig Atal y Fro yn ei wybod am Oedolyn A**

Nid oes gan Atal y Fro unrhyw gyswllt uniongyrchol ag Oedolyn A.

122 **Dadansoddiad o ymgysylltiad Gwasanaethau Trais Domestig Atal y Fro**

Nid yw'n hysbys pam na chynhaliwyd asesiad cychwynnol mewn cysylltiad â Janet, ond mae staff wedi dweud nad oedd hi fel arfer yn ymgysylltu â gwasanaethau; roedd rhai yn ei hadnabod ac yn dweud y cafodd fywyd cythryblus iawn. Wrth fyfyrio, mae Atal y Fro o'r farn y gallai fod wedi bod yn briodol ei chanlyn i'w hannog

i ymgysylltu â'u gwasanaeth neu i wneud gwell cysylltiad ag asiantaethau eraill fel y Gwasanaethau Cymdeithasol / camddefnyddio sylweddau, i weld a ellid dod o hyd i ddull mwy rhagweithiol ar y cyd o'i helpu i reoli ei sefyllfa.

123 Mae'r ffaith bod Oedolyn A wedi ei garcharu sawl gwaith am ymosod ar Janet yn canu clychau rhybuddio a dylai fod wedi arwain at ddull Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ar berson mor agored i niwed. Pe bai hyn wedi digwydd, byddai asiantaethau eraill wedi gorfod bod yn gysylltiedig ac efallai y byddai'r dull integredig hwnnw wedi cael effaith fwy cadarnhaol. Hefyd, dylai'r Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig ar adeg y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg cyntaf fod wedi defnyddio hyn fel cyfle i gyfeirio Janet i wasanaethau ehangach Atal y Fro.

124 Collodd y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig gyfle pan oedd hi'n darparu cymorth i'r llys, i gyfeirio Janet i wasanaethau cymorth ehangach Atal y Fro, a fyddai hefyd wedi cysylltu â gwasanaethau eraill. Mae'r Gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig presennol (a elwir bellach y Tîm Cymorth Eiriolaeth) yn welliant enfawr ar yr hyn a oedd yn bodoli ar yr adeg yr oedd yn ymwneud â Janet, gan ei fod yn gweithio'n agos gyda'r heddlu bob dydd i godi HDCau cyn gynted â phosibl a gwneud cyswllt ar unwaith. Mae cydweithio ag Eiriolwr y Llys yn sicrhau bod yr holl wasanaethau eraill yn cael eu cyrchu.

### 125 Cymdeithas Dai Gofal Hafod

Mae Cymdeithas Dai Gofal yr Hafod yn sefydliad elusennol, 'nid-er-elw', sy'n cynnig gofal a chymorth wedi'i deilwra i unigolion ac yn darparu ystod eang o wasanaethau tai, gofal a chymorth i bobl ledled De a Gorllewin Cymru. Mae'n helpu'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, i'w galluogi i gynnal eu hannibyniaeth a'u lles cyn hired â phosibl yn eu cartrefi eu hunain, tai cymorth neu yn ei gartrefi gofal preswyl.

## 126 Beth roedd Cymdeithas Dai Gofal Hafod yn ei wybod am Janet

Y tro cyntaf i Gymdeithas Tai Gofal Hafod ymwneud â Janet oedd ym mis Ionawr 2013. Ar y pryd, roedd Oedolyn A yn dal i wasanaethu ei ddedfryd o dair blynedd o garchar am ymosod arni; roedd Janet yn poeni am gyswllt ganddo ac roedd yn asesu cymorth gan Atal y Fro i gael cyngor arbenigol. Cafwyd trafodaeth am iawndal am yr ymosodiad hefyd. Fe wnaethant gwblhau Asesiad Cyswllt Cychwynnol sydd wedi'i grynhoi fel a ganlyn:

**Teulu a pherthnasoedd**

- *Roedd cynbartner Janet yn y carchar am drais domestig; roedd gorchymyn ar waith na all unrhyw gyswllt ddigwydd, dim cyswllt dros y ffôn/llythyrau ac ati. Sefydlu mesurau diogelu priodol.*

**Sgiliau bywyd**

- *Roedd Janet yn dioddef o lewygu ac oherwydd hyn roedd risg i wneud tasgau o ddydd i ddydd.*

**Cyflogaeth**

- *Roedd Janet ar Lwfans Cymorth Cyflogaeth (grŵp cymorth) ac nid oedd yn gweithio*

**Trais Domestig**

- *Dioddefodd Janet Gam-drin Domestig ac roedd ei chyn-bartner yn y carchar ar ddedfryd o dair blynedd. Gallai gael ei ryddhau ym mis Hydref 2013 neu ddechrau 2014. Roedd y llys wedi sefydlu gorchmynion penodol ac roedd gorchymyn atal dim cyswllt.*

**Iechyd Meddwl**

- *Dioddefodd Janet iselder ac mae bod ar ei phen ei hun yn achosi gorbryder a phyliau o banig iddi. Roedd y meddyg teulu yn ymwybodol o hyn, ond nid oedd Janet ar feddyginiaeth.*

**Alcohol**

- *Roedd Janet yn alcoholig cofrestredig ac yn yfed lager cryf bob dydd. Roedd hi wedi ymatal am gyfnodau o dri neu bedwar mis. Dywedodd efallai y byddai'n cysylltu â Chanolfan Cyffuriau ac Alcohol Newlands yn y dyfodol.*

**Iechyd Corfforol**

- *Roedd Janet yn profi problemau wrth gerdded oherwydd anawsterau anadlu a phroblemau gyda'i choesau. Soniodd Janet am lewygu'n rheolaidd, ond nid oedd unrhyw ymgysylltiad â gwasanaethau eraill.*

**Salwch Cronig**

- *Dywedodd Janet ei bod yn dioddef o asthma a'i bod yn cael trafferth anadlu bob dydd, ond nad oedd wedi cael diagnosis. Soniodd hefyd am lewygu.*

**Tai**

- *Trafododd Janet orfod addasu ei thŷ a bod lleithder a chyddwysiad trwy'r tŷ. Soniodd hefyd am newidiadau i'w budd-dal tai a sut y byddai'n effeithio ar ei thenantiaeth.*

**Asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig**

- *Soniodd Janet am ei meddygfa a*
- *Ei gweithiwr cymorth cychwynnol o Gymdeithas Dai Gofal Hafod*

Cafwyd asesiadau risg ac adolygiadau rheolaidd hyd at fis Gorffennaf 2015, heb unrhyw newidiadau mawr i amgylchiadau Janet. Yn ogystal, roedd sawl Cynllun Cymorth Personol ac adolygiadau, sy'n cael eu crynhoi fel a ganlyn:

- 8 Chwefror 2013 - *Roedd angen cefnogaeth ar Janet o ran teimlo'n ddiogel gan fod ei chyn-bartner yn y carchar ac roedd hi eisiau teimlo'n ddiogel pan*

*gafodd ei ryddhau ac yn y dyfodol. Roedd y gweithiwr cymorth i gael gwybodaeth gan Cymorth i Fenywod am orchmynion atal a sut maent yn gweithio a diogelwch personol yn y dyfodol. Roedd cynlluniau hefyd i gael iawndal am anafiadau troseddol*

- 8 Awst 2013 – *mae'r gwaith teimlo'n ddiogel yn parhau, siarad ar 8 Awst 2013 – mae gwaith teimlo'n ddiogel yn parhau, siarad â Cymorth i Ddioddefwyr (cynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i bobl y mae trosedd yn effeithio arnynt) am ei chyn-bartner. Janet i gael ei hysbysu ynghylch pryd mae Oedolyn A yn dod allan o'r Carchar.*

- 8 Chwefror 2014 - *cysylltu â Cymorth i Fenywod os oes angen a rhoi cyngor i Janet ar ffonio'r Heddlu pe bai Oedolyn A yn mynd unrhyw le yn agos i'r eiddo*.

- 30 Gorffennaf 2014 - y nod i deimlo'n ddiogel wedi'i gyflawni - *Roedd Janet wedi cysylltu ag Atal y Fro a'r Heddlu ac roedd hi'n glir am y gweithdrefnau pe bai Oedolyn A yn cysylltu â hi*.

127 Ymwelodd Cymdeithas Dai Gofal Hafod â Janet gartref ar 31 Ionawr 2013. Gwnaethant drafod ei hôl-ddyledion rhent a chytuno i gefnogi Janet gyda'i hawliad iawndal am anafiadau troseddol. Yr wythnos ganlynol, aethant gyda Janet i'r orsaf heddlu i gael y wybodaeth berthnasol i gefnogi'r honiad.

128 Roedd cysylltiadau cymorth rheolaidd â Janet dros y misoedd canlynol lle trafodwyd y nodau yr oedd hi'n dymuno eu cyflawni yn ogystal â rhoi cymorth am faterion dyled, yr hawliad iawndal am anafiadau troseddol, poenau i frest Janet, materion tenantiaeth a chasglu ei meddyginiaeth.

129 Ar 27 Mai 2013, ymwelwyd â Janet gartref a ffoniodd y gweithiwr cymorth y gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr (sy'n cynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i

bobl y mae trosedd yn effeithio arnynt) a ddywedodd nad oedd Oedolyn A wedi ei ryddhau o'r carchar eto. Dywedodd y byddai'n ffonio Janet pe bai'n derbyn unrhyw newyddion.

130 Yn ystod ymweliad cartref arall ar 5 Rhagfyr 2013, ffoniodd y gweithiwr cymorth y gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr eto i ofyn am ryddhau Oedolyn A o'r carchar oherwydd bod Janet yn poeni amdano (Oedolyn A) yn mynd i'w heiddo. Dywedwyd wrthi am ffonio'r Uned Cam-drin Domestig (a fu) sydd bellach yn Uned Diogelu'r Cyhoedd i weld a fyddai modd gosod larwm panig i Janet. Cwblhaodd y gweithiwr cymorth y ddogfennaeth angenrheidiol a dywedwyd y byddai Janet yn cael ei thrafod yn y CAAR ar 18 Rhagfyr 2013. Aeth y gweithiwr cymorth i'r CAAR lle trafodwyd Oedolyn A gyda'r canlyniad nad oedd ganddo ganiatâd i mewn i [enw'r dref wedi'i ddileu] oni bai bod ganddo apwyntiadau. Os oedd yn nesáu at Janet neu os nad oedd hi'n hapus dylai Janet gysylltu â gweithiwr penodedig yn yr Uned Cam-drin Domestig a allai roi marciwr ar yr eiddo.

131 Pan ymwelodd y gweithiwr cymorth â chartref Janet ar 26 Mehefin 2014, gwelodd Oedolyn A yno. Dywedodd wrtho ef a Janet ei fod yn torri'r gorchymyn atal trwy fod yno. Dywedodd Oedolyn A mai dim ond i gasglu ei ddillad yr oedd wedi mynd yno; ni arhosodd yn hir ar ôl i'r gweithiwr cymorth gyrraedd.

132 Daeth y cymorth i Janet i ben ar 8 Hydref 2014, oherwydd bod ei hanghenion cymorth wedi'u diwallu. Cwblhawyd arolwg ymadael lle dywedodd Janet ''*Rwy'n teimlo'n fwy hyderus gyda'r holl ohebiaeth ac rwy'n delio gyda fy nyled*''.

## 133 Beth roedd Cymdeithas Dai Gofal Hafod yn ei wybod am Oedolyn A

Ni chafodd Tai Gofal Hafod unrhyw gyswllt uniongyrchol ag Oedolyn A ac eithrio pan gafodd ei weld yn nhŷ Janet ar 26 Mehefin 2014.

134 **Dadansoddiad o ymgysylltiad Cymdeithas Dai Gofal Hafod**

Dilynwyd polisïau a gweithdrefnau drwy'r amser ac nid oes amheuaeth bod Janet wedi gwerthfawrogi'r cymorth a gafodd gan Gymdeithas Dai Gofal Hafod. Yn gyffredinol, nid oedd Janet yn agored i gynnwys sefydliadau cymorth, ond mae'n ymddangos ei bod wedi gwneud eithriad ar gyfer Gofal Hafod.

135 Roedd gweinyddu'r gwasanaeth a ddarparwyd yn cynnwys cyfweliad cychwynnol cynhwysfawr a gefnogwyd gan asesiadau risg rheolaidd a chynlluniau cymorth personol drwy gydol y cyfnod y bu Janet yn ymwneud â'r sefydliad. Cadwyd taflenni cyswllt; gan nodi ar bob ymweliad beth oedd wedi'i drafod a'i gytuno. Pan gyflawnwyd nodau Janet, rhoddwyd cynllun ymadael ar waith ar ei chyfer, a oedd unwaith eto wedi'i gofnodi’n dda. Yn olaf, cwblhawyd arolwg ymadael sy'n arfer arbennig o dda.

136 Yn ystod yr adolygiad, nododd y sefydliad rai hepgoriadau cymharol fach o fewn nifer fach o daflenni cyswllt ac maent bellach wedi atgyfnerthu i'w staff bwysigrwydd cadw cofnodion cywir a llawn. Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod safon gweinyddu'r gwasanaeth yn uchel yn gyffredinol.

137 Wrth fyfyrio, mae Gofal Hafod yn cydnabod y dylid bod wedi adrodd i'r heddlu am y ffaith bod Oedolyn A wedi cael ei weld yng nghartref Janet. Roedd hyn yn gamgymeriad gan unigolyn, na wnaeth adrodd y digwyddiad i'w rheolwr llinell; pe bai wedi gwneud hynny, byddai asiantaethau eraill wedi cael eu hysbysu ar unwaith.

138 **Cyfweliad ag Oedolyn A yn y carchar**

**Sylwadau:** *Mae cyfrifon a ddarperir gan droseddwyr euog yn aml yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer adolygiadau dynladdiad domestig, ond dylid pwysleisio nad yw'r hyn a ddywedir bob amser yn destun herio a gallai fod rhesymau niferus pam y gall esboniadau a ddarperir fod yn anghyson ag agweddau hysbys eraill ar achos.*

Ysgrifennodd cadeirydd yr adolygiad at Oedolion A i esbonio bod adolygiad dynladdiad domestig yn digwydd ac i ofyn a fyddai'n fodlon cymryd rhan ynddo; nid ymatebodd i'r llythyr.

Siaradodd y gwasanaeth prawf ag ef hefyd ac esboniwyd y broses ac eto gwrthododd Oedolyn A gymryd rhan yn yr adolygiad.

## 139 Mynd i'r Afael â'r Cylch Gorchwyl

- **Ymgysylltiad teulu a ffrindiau Janet**

Ysgrifennwyd at deulu a ffrindiau Janet a gofynnwyd iddyn nhw gymryd rhan yn yr adolygiad, a/neu ddarparu gwybodaeth a allai helpu'r adolygiad i gael gwell dealltwriaeth o'r digwyddiadau yn ei bywyd a arweiniodd at y digwyddiad trasig hwn. Gwnaed galwad ffôn ddilynol i aelod o'r teulu a fynegodd y dymuniad i beidio â chymryd rhan yn yr adolygiad.

Mae'r panel yn cydnabod y gallai eu cyfranogiad fod wedi helpu i ddarparu gwell dealltwriaeth o'i bywyd a'r digwyddiadau ynddo ac maent wedi ymdrechu i weld yr adroddiad trwy ei llygaid hi.

140 • **Penderfynu sut y dylid rheoli materion sy'n ymwneud â theulu a ffrindiau, y cyhoedd a'r cyfryngau cyn, yn ystod ac ar ôl yr adolygiad a phwy ddylai fod yn gyfrifol am hyn.**

Penderfynodd y panel mai Partneriaeth Gymunedol Bro Morgannwg fyddai'n gyfrifol am yr holl faterion cyfryngau a chyfathrebu.

141 • **Ystyried crwneriaid neu achosion troseddol (gan gynnwys materion datgelu) o ran amseru a chysylltiad â theulu Janet i sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth berthnasol heb achosi oedi sylweddol yn y broses adolygu neu lesteirio'r broses farnwrol**

Fel y soniwyd yn flaenorol, agorwyd y cwest i farwolaeth Janet gan Grwner EM, ond cafodd ei atal er mwyn caniatáu i'r broses cyfiawnder troseddol fynd rhagddi.

Gan y bu treial llawn a thrafodwyd amgylchiadau marwolaeth Janet yn y llys, ni chynhaliodd y crwner gwest ffurfiol, yn unol â Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

142 Nid oedd teulu Janet yn dymuno cymryd rhan yn yr adolygiad ac felly ni fu oedi cyn rhannu gwybodaeth â nhw. Ar ôl i'r adroddiad gael ei gwblhau, bydd cysylltiad pellach ag aelodau o'r teulu i egluro bod yr adroddiad wedi'i gwblhau a rhoi cyfle iddynt gwrdd â'r Cadeirydd, y panel neu'r ddau i'w drafod.

143 • **Ystyried a oes angen i'r panel adolygu gael cyngor cyfreithiol annibynnol ar unrhyw agwedd ar yr adolygiad arfaethedig.**

Nid oes unrhyw wrthdaro na materion wedi'u nodi a fyddai'n awgrymu y bydd angen cyngor cyfreithiol annibynnol ar unrhyw agwedd ar yr adolygiad hwn.

144 • **Sicrhau bod y broses adolygu yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o ymchwil ac adolygiadau dynladdiad domestig blaenorol.**

Mae'r Cadeirydd wedi craffu ar ADDau blaenorol a gynhaliwyd yn genedlaethol yn ystod yr adolygiad hwn, i ystyried y gwersi a ddysgwyd.

145 • **A oedd y digwyddiad lle bu farw Janet yn ddigwyddiad ynysig neu a oedd unrhyw arwyddion rhybuddio ac a ellid bod wedi gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr trais domestig.**

Cafodd bywyd Janet ei ddinistrio gan gam-drin domestig o ganol y 1990au. Ar ôl marwolaeth ei merch fach a chwalfa ddilynol ei phriodas, datblygodd ddibyniaeth ar alcohol a'i gwnaeth hi'n arbennig o agored i gam-drin gan bartneriaid gwrywaidd a oedd hefyd yn ddibynnol ar alcohol ac a oedd yn cymryd cyffuriau anghyfreithlon.

146 Roedd hi wedi bod mewn dwy berthynas gamdriniol hir, parodd y cyntaf ohonynt ddeng mlynedd; cafodd yr heddlu eu galw i ddigwyddiadau yn ymwneud â'r ddau tua 45 gwaith. Ers 2007, roedd Janet wedi bod yn ymwneud ag Oedolion A. Bu sawl digwyddiad lle'r oedd wedi ymosod ar Janet ac fe'i anfonwyd i'r carchar ddwywaith am hyn.

147 Roedd asiantaethau cymorth a'r heddlu yn gwybod am ei sefyllfa ac yn gweithio gyda'i gilydd i geisio lleihau'r risg iddi, gan gymryd camau gorfodi cadarnhaol yn erbyn Oedolyn A pan gododd y cyfle.

148 Trafodwyd Janet yn CAAR sawl gwaith ar ôl iddi gael ei hasesu fel un sydd mewn perygl uchel o niwed, gyda'r canlyniad canlynol. Cafwyd gorchymyn atal ond roedd y cyswllt yn gyfyngedig iawn â Janet am gyfnod byr ar ôl carcharu Oedolyn A.

Dywedodd Atal y Fro y dylai'r Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig ar adeg y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg cyntaf fod wedi defnyddio hyn fel cyfle i gyfeirio Janet iddynt. Hyn sy'n digwydd bellach pan fydd person hynod agored i niwed yn mynd trwy'r system cyfiawnder troseddol, darperir dull mwy cofleidiol o gymorth sy'n cynnwys cwnsela a chymorth emosiynol ac ymarferol mwy dwys.

149 Roedd digon o gyfleoedd i weithwyr iechyd proffesiynol gefnogi Janet, yn enwedig ei meddygon teulu, ond nid yw'n ymddangos bod yr un ohonynt wedi ystyried y risg barhaus iddi o gam-drin domestig. Datgelodd gam-drin domestig ddwywaith i feddyg teulu, ond ni chafodd gynnig unrhyw gefnogaeth na chymorth.

Nodwyd dro ar ôl tro bod Janet yn ddibynnol ar alcohol, ond ni chafodd gynnig unrhyw gymorth mewn cysylltiad â hyn; ymddengys y bu rhagdybiaeth y byddai wedi ei wrthod pe bai'n cael ei gynnig. Nid oedd unrhyw ystyriaeth amlwg bod dibyniaeth Janet ar alcohol wedi cynyddu pa mor agored i niwed oedd hi.

150 - **A oedd Janet wedi profi cam-drin mewn perthnasoedd blaenorol ym Mro Morgannwg neu mewn mannau eraill, ac a wnaeth y profiad hwn effeithio ar ei thebygolrwydd o geisio cymorth yn y misoedd cyn iddi farw.**

Fel y soniwyd uchod, am o leiaf 19 mlynedd, cafodd bywyd Janet ei ddinistrio gan gam-drin domestig. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cysylltodd â'r heddlu sawl gwaith, heb amheuaeth oherwydd mai dyma'r ffordd fwyaf diogel a chyflymaf iddi atal y trais uniongyrchol neu'r bygythiad ohono.

151 Fe wnaeth Janet dderbyn rhywfaint o'r cymorth a gynigiwyd iddi, ond yr argraff gyffredinol a gafwyd gan weithwyr proffesiynol oedd nad oedd hi'n hoffi ymgysylltu â gwasanaethau heblaw pan oedd hi mewn argyfwng.

152 Nid oes unrhyw beth i awgrymu bod profiad Janet o'r cymorth a roddwyd iddi yn flaenorol wedi effeithio'n negyddol arni'n ceisio cymorth yn y misoedd cyn iddi farw.

153
- **A oedd cyfleoedd wedi'u colli i weithwyr proffesiynol 'holi fel mater o drefn' am unrhyw gam-drin domestig a brofwyd gan Janet?**

Ymwelodd Janet ag adran achosion brys yr ysbyty sawl gwaith gydag amrywiaeth o anafiadau meinwe meddal, anafiadau i'r pen a thoriadau. Nid oes cofnod o unrhyw esboniadau yn cael eu rhoi gan Janet ynghylch sut y cafodd yr anafiadau eu hachosi na'i bod wedi ei holi amdanynt.

154 Roedd y practis meddyg teulu yn gwybod am ei hanes o gael ei cham-drin, ond nid oedd llawer iawn o ymgysylltu â hi mewn sgwrs am hyn i gasglu mwy o wybodaeth gyda'r bwriad o wneud atgyfeiriadau diogelu. Cafodd Janet fwy o gyswllt â'i meddyg teulu nag ag unrhyw weithiwr iechyd proffesiynol arall a nhw oedd yn y sefyllfa orau i asesu sut roedd hi'n agored i niwed, ond mae'n ymddangos bod ei chyflwyniad yn y feddygfa wedi ei drin ar wahân.

155
- **A oedd gan Oedolyn A unrhyw hanes blaenorol o ymddygiad camdriniol tuag at bartner agos ac a oedd hyn yn hysbys i unrhyw asiantaethau.**

Mae gan Oedolyn A euogfarnau blaenorol am drais yn dyddio'n ôl i ddiwedd y 1960au, ond nid yw'r un yn ymwneud â thrais domestig heblaw am y rhai sy'n ymwneud â Janet.

156
- **A oedd unrhyw rwystrau i Janet neu deulu/ ffrindiau/ cydweithwyr wrth adrodd am unrhyw gam-drin ym Mro Morgannwg neu mewn mannau eraill, gan gynnwys a oeddent yn gwybod sut i adrodd am gam-drin domestig pe baent wedi dymuno gwneud hynny.**

Mae tystiolaeth glir bod Janet yn gwybod sut i adrodd am gam-drin domestig a'i bod yn ymwybodol o'r mecanweithiau cymorth oedd ar gael iddi pe bai'n gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r un mor amlwg pan adroddodd amdano, mai er mwyn atal sefyllfa dreisgar bresennol neu fygythiad ohono oedd hyn a phan oedd y bygythiad uniongyrchol yn diflannu, heb amheuaeth oherwydd ofn dial, fod tuedd iddi ymbellhau oddi wrth brosesau barnwrol a chymorth.

157 • **A oedd cyfleoedd wedi'u colli i asiantaethau ymyrryd mewn cysylltiad â cham-drin domestig ynghylch Janet ac Oedolyn A neu blant dibynnol.**

Roedd camgymeriad dynol ar ran swyddog heddlu yn golygu na chafodd Oedolyn A ei arestio ar 10 Hydref 2015 am dorri gorchymyn atal ac yn yr un modd, ni ddywedwyd wrth yr heddlu gan gymdeithas Gofal Hafod eu bod wedi gweld Oedolyn A yng nghartref Janet.

158 • **Dylai'r adolygiad nodi unrhyw ofynion hyfforddi neu godi ymwybyddiaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a/neu wasanaethau cam-drin domestig yn y rhanbarth.**

Mae Heddlu De Cymru wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau i bobl agored i niwed drwy weithredu Operation Liberty. Nod yr ymgyrch strategol hon yw tynnu sylw at bwysigrwydd darparu gwasanaeth i aelodau'r gymuned sy'n agored i niwed ac mae wedi cynnwys hyfforddiant parhaus a chynyddu adnoddau. I Heddlu De Cymru, mae ymdrin â bod yn agored i niwed yn cael ei nodi'n flaenoriaeth strategol erbyn hyn. **Mae hyfforddiant wedi'i ymgorffori i holl staff heddlu de Cymru yn ystod eu gwasanaeth prawf a pharhaus erbyn hyn.**

159 Mae pwysigrwydd cynnal gwiriadau cudd-wybodaeth cynhwysfawr ar droseddwyr trais domestig i'w bwysleisio. Dylid ei ddwyn i sylw adrannau plismona sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymdrin â phobl sy'n cael eu harestio.

160 Mae'r Tîm Rheoli Tai wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth cam-drin domestig lefel 1 erbyn hyn fel rhan o gyflwyno'r fframwaith hyfforddi cenedlaethol ledled Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o beth yw cam-drin domestig, arwyddion i chwilio amdanynt a ble i gyfeirio am help. Mae ganddynt aelod tîm sy'n hyrwyddwr Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig – Trais Rhywiol (VAWDA-SV), sydd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb ychwanegol o ddarparu cyngor i aelodau'r tîm mewn cysylltiad â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod.

161 Maent hefyd yn diweddaru eu polisi cam-drin domestig ac yn adolygu prosesau ynghylch cofnodi gwybodaeth CAAR.

Mae'r adran hefyd yn adolygu'n fewnol sut y gall nodi achosion risg safonol a chanolig, na fyddai'n cael eu trafod yn draddodiadol o fewn sefyllfa CAAR. Mae mwy o bwyslais yn y gwasanaeth i nodi arwyddion cam-drin domestig, gan gynnwys canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fewn timau fel cynnal sy'n aml yn treulio'r rhan fwyaf o amser yng nghartrefi pobl. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl staff yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn amau cam-drin domestig, er enghraifft adrodd amdano i Reolwr Cymdogaeth yr ardal a fydd wedyn yn gallu ymchwilio ymhellach yn ôl yr angen.

162 Mae diogelu, gan gynnwys cam-drin domestig, wedi'i ychwanegu fel eitem agenda safonol mewn cyfarfodydd goruchwylio a thîm y Rheolwr Cymdogaeth, er mwyn sicrhau bod pwysigrwydd achosion o'r fath yn parhau i fod yn flaenllaw yn eu meddyliau. Mae hefyd yn creu cyfle bob mis i staff godi unrhyw bryderon ac i ofyn am gyngor gan eu rheolwr. Mae profiad wedi dangos y gall staff ar adegau boeni am

wneud atgyfeiriadau i CAAR neu asiantaethau diogelu mewn cysylltiad â materion sensitif, felly bydd y broses yn eu galluogi i drafod achosion yn ogystal â thynnu ar wybodaeth berthnasol arall.

163 • **Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried yn briodol unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymddangos yn berthnasol i Janet, Oedolyn A ac unrhyw blant dibynnol, e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.**

Drwy gydol yr adolygiad, ystyriodd y panel yr holl nodweddion gwarchodedig a cheisiodd nodi ble y gallai unrhyw rai o'r nodweddion hyn fod wedi effeithio ar wneud penderfyniadau neu'r ffordd y cefnogwyd Janet. Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb nac amrywiaeth yn ystod yr adolygiad.

## 164 Gwersi allweddol a ddysgwyd gan yr asiantaethau

### Heddlu De Cymru

Dysgodd yr heddlu fod eu protocolau rheoli risg wedi bod yn effeithiol ac wedi arwain at ymatebion cyflym i alwadau gan Janet a chymryd camau dilynol priodol.

165 Mae'r adolygiad wedi dangos bod arferion gwaith amlasiantaethol effeithiol ar waith ym Mro Morgannwg dros gyfnod yr adolygiad, er enghraifft roedd swyddogion yn gallu cysylltu â staff yr adran dai i newid cloeon yn safle Janet.

166 Mae'r Adolygiad wedi arwain at argymhelliad y dylid cynnal adolygiad mewnol o'r gydymffurfiaeth mewn cysylltiad â chwblhau'r rhestr wirio cam-drin domestig orfodol.

167 Mae'n ymddangos bod CAARau wedi digwydd ond efallai nad oes gan yr heddlu gofnod ohonynt. Mae prosesau ar waith bellach ar gyfer storio cofnodion CAAR, roedd materion pan newidiodd systemau gwybodaeth a chofnodi troseddau yr heddlu i NICHE ac roedd gwahanol systemau ar gyfer cadw cofnodion.

168 **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**

Yn ystod ei oruchwyliaeth trwydded trosglwyddwyd ei reolaeth o swyddog prawf i swyddog y gwasanaeth prawf o ganlyniad i'w gynnydd da. Er na fyddai hyn o reidrwydd yn arfer anghyffredin, roedd Oedolyn A yn parhau i fod yn droseddwr cam-drin domestig risg ganolig gyda hanes hirsefydlog a difrifol o droseddu yn erbyn yr un person, a oedd wedi gwrthod cydnabod neu fynd i'r afael â'r achos sylfaenol am ei drais ac nad oedd wedi cwblhau unrhyw waith perthynas.

169 Byddai wedi bod yn fuddiol gweld mwy o dystiolaeth o waith ymyrraeth strwythuredig a wnaed gydag Oedolyn A, os nad yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar ei berthynas â Janet o ystyried ei lefel o wadu, ond yn fwy cyffredinol ar berthnasoedd iach a strategaethau ar gyfer ymdopi â gwrthdaro yn y dyfodol a sbardunau ar gyfer ymddygiad camdriniol a threisgar. Efallai y byddai mwy o waith ar yr hyn a allai ei ddenu i fod yn gamdriniol mewn perthynas eto wedi rhoi gwell sgiliau iddo o ran hunanreolaeth a rheoli ei emosiynau a’i ymddygiad ei hun.

170 O fewn recordiad yr achos a'r asesiadau ymddengys mai ychydig iawn sy'n hysbys am leoliad ac amgylchiadau Janet yn ystod cyfnod rheoli trwydded Oedolyn A. Yn ddealladwy, mae pwyslais y GPC ar Oedolyn A fel y troseddwr euog, ond byddai cadw cyswllt ag asiantaethau sydd mewn cysylltiad â'r dioddefwr wedi darparu mwy o drosolwg o'r risg ac wedi llywio'n well ein hymgysylltiad ag Oedolyn A.

171 Nid oes unrhyw dystiolaeth bod unrhyw asiantaethau a oedd yn gweithio’n hirdymor gyda Janet wedi cael gwybod am ddiwedd ymgysylltiad y GPC ag Oedolion A ym mis Gorffennaf 2015. Efallai y byddai hyn wedi eu helpu i gynllunio eu hymgysylltiad â Janet gan wybod bod ei ddedfryd a'i atebolrwydd i'r system cyfiawnder troseddol wedi dod i ben ar y dyddiad hwnnw.

172 **Cyngor Bro Morgannwg - Gwasanaethau Oedolion**

Nid oedd unrhyw wersi allweddol i’w dysgu ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg – Gwasanaethau Oedolion yn ystod yr adolygiad hwn.

173 **Cyngor Bro Morgannwg - Gwasanaethau Tai**

Yr hyn y mae Cyngor Bro Morgannwg - Gwasanaethau Tai wedi’i ddysgu yw gwerth yr holl aelodau staff yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, gan sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn gallu ymdrin ag unrhyw faterion yn briodol.

174 Tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at y ffaith bod prosesau gweithio ar y cyd ym Mro Morgannwg, gan gynnwys CAAR, yn eu galluogi i ddiogelu tenantiaid i lefel resymol, er enghraifft ymateb i geisiadau'r heddlu i osod cloeon ffenestri ychwanegol a newid cloeon y drws ffrynt pan fo angen. Mae'r adolygiad hefyd wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cadw nodiadau rheoli achos manwl o ansawdd uchel.

175 Er mwyn cynorthwyo'r tîm i nodi'n well anghenion cymorth y rhai sy'n byw yn eu llety, maent wedi adolygu eu proses asesu cychwynnol ar gyfer llety gwarchod pan fydd eiddo wedi’i ddyrannu i rywun. Yn ogystal â gofyn i'r tenant a ydynt wedi bod yn ddioddefwr cam-drin domestig, maent hefyd bellach yn gosyn a ydynt erioed wedi bod yn droseddwr cam-drin mewn perthynas.

176 **Cyngor Bro Morgannwg - Tîm Datrysiadau Tai**

Mae holl staff Datrysiadau / Opsiynau Tai a hostel oherwydd y gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad hwn wedi ymgymryd â hyfforddiant cam-drin domestig erbyn hyn.

177 **Cyngor Bro Morgannwg - Cefnogi Pobl**

Yr hyn y mae Cyngor Bro Morgannwg – Cefnogi Pobl wedi'i ddysgu yw bod eu gwasanaeth yn briodol i Janet a'i fod wedi'u galluogi i'w chyfeirio i gymorth ychwanegol bob tro.

Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen sicrhau bod cofnod llawn unigolyn yn cael ei archwilio pan fydd cyswllt, a thrwy hynny sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r holl faterion. Y tro olaf pan gafodd Janet ei hatgyfeirio ni ddigwyddodd hyn ac o ganlyniad i hynny ni wnaed unrhyw ystyriaeth ynglŷn â cham-drin domestig.

178 **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Nodwyd sawl gwaith fod Janet yn ddibynnol ar alcohol, ond dwywaith yn unig y cafodd gynnig unrhyw gymorth; ymddengys y bu rhagdybiaeth y byddai wedi ei wrthod pe bai'n cael ei gynnig.

179 Sylweddolodd y Bwrdd fod Janet wedi datgelu cam-drin domestig ddwywaith, ond ni chafodd gynnig unrhyw gymorth. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gweithredu newidiadau sydd wedi gwella'n sylweddol yr arferion yn hyn o beth. Mae sawl menter ar waith bellach i sicrhau na fydd yn digwydd eto, megis gweithredu'r prosiect IRIS wedi'i dargedu at bractisau meddygon teulu. Mae'r egwyddor o 'Gofyn a Gweithredu' wedi'i hymgorffori'n gadarn ar draws y sefydliad.

Mae yna system 'fflagio' ar waith nawr hefyd yn yr uned achosion brys i sicrhau bod dioddefwyr sy'n cyflwyno mwy nag unwaith yn cael eu targedu gydag ymyriadau angenrheidiol. Bydd penodiad Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig yn ddiweddar yn cefnogi staff a dioddefwyr ymhellach.

180 **Gwasanaethau Trais Domestig Atal y Fro**

Y wers ar gyfer Gwasanaethau Trais Domestig Atal y Fro oedd bod y Gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig ar adeg ymwneud Janet â nhw ymhell o fod yn ddigonol. Ers hynny mae wedi ei wella'n fawr ac mae’n gweithio'n agos iawn erbyn hyn gyda'r heddlu ac eiriolwr y Llys.

181 Mae Atal y Fro yn parhau i ddatblygu ac wedi cyflwyno Tîm Cymorth Eiriolaeth ar gyfer unrhyw ryw yn ogystal â Phrosiect Tai Gwasgaredig, sy'n darparu lloches mewn unedau unigol i gleientiaid fel Janet sydd ag anghenion cymhleth.

182 Adroddodd y Cyfarwyddwr fod ansawdd nodiadau rhai o'u staff (ar y pryd) yn siomedig, felly trefnodd Atal y Fro hyfforddiant gorfodol ar gyfer y tîm cyfan a chyflwyno system adrodd gyfrifiadurol newydd, ac ymddengys fod hyn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol.

183 **Cymdeithas Dai Gofal Hafod**

Dangoswyd gwerth gweinyddu a chydymffurfiaeth effeithiol Cymdeithas Dai Gofal Hafod yn ystod yr adolygiad, yn enwedig ei asesiadau cyswllt cychwynnol, asesiadau risg, cynlluniau cymorth personol a thaflenni cyswllt. Roeddent yn gallu darparu tystiolaeth o’r cymorth a roddwyd ganddynt i Janet, er enghraifft gyda materion tenantiaeth, dyled, iechyd, sicrhau’r incwm mwyaf, sefydlu biliau cyfleustodau, materion cyfreithiol, gohebiaeth, a rheoli argyfwng. Roedd eu rhyngweithio ag

asiantaethau eraill wedi'i ddogfennu'n dda yn ogystal â'r ffaith bod eu gwasanaeth wedi'i arwain gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

184 **Casgliadau**

Bu farw Janet mewn amgylchiadau trasig wrth law dyn a oedd wedi bod yn ymosodol ac yn dreisgar tuag ati dros nifer o flynyddoedd. Roedd Janet wedi dioddef torcalon o golli ei merch fach (Plentyn D) bron i 30 mlynedd yn ôl mewn tân yn y tŷ, rhywbeth na wnaeth ddygymod ag ef byth ac a oedd yn achos ei dibyniaeth ar alcohol. Gwnaeth y ddibyniaeth hon Janet yn agored i niwed a dioddefodd berthnasoedd treisgar a chamdriniol â dynion.

Cafodd Janet ddau bartner gwrywaidd, un ohonynt (Oedolyn B) am tua deng mlynedd tan 2007, lle dioddefodd drais a chamdriniaeth, pan gafodd yr heddlu ei alw ar dros 40 o adegau.

Nid oes amheuaeth bod Oedolyn A yn unigolyn treisgar ac ystrywgar gyda hanes o droseddau lluosog gan gynnwys trais yn erbyn menywod. Roedd wedi cael ei ddyfarnu'n euog o drais tuag at Janet ac wedi treulio dedfrydau o garchar am y trais hwnnw, fodd bynnag, roedd bob amser yn gallu gweithio ei ffordd yn ôl i fywyd Janet. Roedd adegau pan oedd yn dreisgar tuag at Janet ac roedd yr heddlu yn bresennol, ni fyddai Janet yn cymryd camau erlyn. Mae cydnabyddiaeth y gallai erlyniad di-ddioddefwr fod wedi bod ar gael, ond nid oes unrhyw reswm i gredu y byddai hyn wedi bod yn llwyddiannus o ystyried yr amgylchiadau.

Cafodd Janet ei chefnogi gan asiantaethau a rhoddwyd cyngor a chymorth iddi ond ni newidiodd hyn ei gweithredoedd nac effeithio arnyn nhw na'i chanlyniadau, sydd ynddo'i hun yn arwydd o fod yn agored i niwed.

Nid yw'r adolygiad yn gallu pennu pam nad oedd Janet yn dymuno mynd ar drywydd erlyniadau na pham ei bod wedi gadawodd i Oedolyn A ddod yn ôl i'w bywyd, gellir tybio mai o ganlyniad i fod yn agored i niwed, ofn, dychryn, bygythiadau neu natur ystrywgar Oedolyn A.

Mae asiantaethau unigol wedi nodi pwyntiau dysgu o'r adolygiad a fydd yn datblygu eu gwasanaethau ar gyfer unigolion fel Janet. Mae llawer wedi'u gweithredu ac eraill yn dal i fod ar y gweill.

Nid oes dim yn yr adolygiad a fyddai'n awgrymu y byddai Janet yn marw mewn amgylchiadau mor drasig nac y gallai asiantaethau fod wedi gwneud unrhyw beth i atal ei marwolaeth.

185 **Argymhellion**

186 **Cenedlaethol**

- Dylai fod eglurder ynghylch cyrchu a rhannu cofnodion gofal iechyd sy'n ymwneud â throseddwyr cam-drin sydd o fewn argymhellion yr ADD.

    - Ar hyn o bryd mae gwybodaeth o fewn canllawiau ADD sy'n argymell datgelu gwybodaeth, fodd bynnag, nid oes gan asiantaethau ac awdurdodau unigol ddull cyson, yn bennaf oherwydd dealltwriaeth a chyngor sy’n gwrthdaro, mae angen eglurder ar gyfer hyn gan y Swyddfa Gartref.

187 **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol**

- Datblygu a recriwtio cydlynydd HDC

- Rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol drwy ddatblygu a gweithredu system TG well a mwy cydgysylltiedig

- Adolygu llwybr atgyfeirio Cam-drin Domestig i sicrhau bod atgyfeiriadau yn cael eu nodi mewn modd amserol a'u cyfeirio i'r asiantaeth briodol

- Adolygu'r cynnydd a wnaed ar argymhellion o leiaf unwaith bob 6 mis i ddarparu asesiad parhaus, gan gynnwys asesiad pellach ar effaith yr argymhellion hynny ar wasanaethau ym Mro Morgannwg

- Datblygu a recriwtio cydlynydd cam-drin domestig, asesu ac atgyfeirio (cydlynydd HDC)

  *(Mae Bro Morgannwg wedi nodi nad oedd digon o bwyslais ar ddioddefwyr trais a cham-drin domestig nad ydynt yn cyflwyno risg uchel. Bydd y swydd hon yn adolygu, asesu risg a chysylltu â'r holl ddioddefwyr trais a cham-drin domestig sydd wedi adrodd i'r heddlu i sicrhau bod yr atgyfeiriad cywir yn cael ei wneud i'r asiantaeth fwyaf priodol a fydd yn cael ei seilio ar anghenion)*

188 **Heddlu De Cymru**

- Dylai Goruchwylwyr graffu'n fanwl ar restrau gwirio trais domestig ar y cyd rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chymdeithas y Prif Swyddogion Heddlu sy'n cyd-fynd â ffeiliau trosglwyddo a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion cwblhau.

189 **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**

- Dylai rheolwyr tîm sicrhau wrth oruchwylio eu bod yn trafod materion gwadu heb eu datrys yn achos troseddwyr trais domestig, wedi'u hasesu fel risg ganolig o niwed.

- Mae rheolwyr tîm yn annog ymarferwyr i ddefnyddio ystod o ymyriadau ymarfer, e.e. llyfrau gwaith gofynion gweithgareddau adsefydlu, i fynd i'r afael â gwadiad troseddwyr ac ymarfer strategaethau i osgoi neu ymdopi â dychwelyd i ymddygiadau dinistriol

- Yn achos cam-drin domestig mae mwy o gofnodi rhannu amcanion a chynnydd cynlluniau rheoli risg a dedfryd troseddwyr gyda'r asiantaethau hynny sydd ag ymgysylltiad gweithredol â dioddefwyr o'r gorffennol. Mae cynlluniau rheoli risg prawf yn cael eu llywio gan ac yn ymatebol i'r cynllunio diogelwch a'r ymyriadau a ddarperir i ddioddefwyr cam-drin domestig

- Ar ddiwedd y cyfnod rheoli trwydded/ dedfryd mae asiantaethau sy'n gweithio gyda dioddefwyr hysbys yn cael gwybod am ddiwedd cyfnod goruchwyliaeth statudol, am gynnydd, amgylchiadau a bwriadau'r troseddwr, fel y gallant ystyried cynllunio diogelwch dioddefwyr gan wybod bod y troseddwr bellach heb oruchwyliaeth asiantaeth cyfiawnder troseddol

190 **Cyngor Bro Morgannwg - Gwasanaethau Oedolion**

Nid oes unrhyw argymhellion mewn cysylltiad â Chyngor Bro Morgannwg – Gwasanaethau Oedolion

191 **Cyngor Bro Morgannwg - Gwasanaethau Tai**

- Adolygu a diweddaru ei Bolisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynnwys:
    - Sefydlu cofnod canolog o wybodaeth CAAR ar gyfer Rheoli Tai

  - Adolygu gweithdrefnau dilynol pan fydd achosion yn cael eu trafod yn CAAR ni waeth beth yw ymgysylltiad asiantaeth arall
  - Sefydlu cofnod canolog o'r holl achosion a drafodwyd yn CAAR gan gynnwys crynodeb o'r rheswm dros atgyfeirio y gellir ei groesgyfeirio ag unrhyw adroddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol neu bryderon eraill y gallai fod gan Reolwyr Cymdogaeth neu aelodau staff eraill

- Datblygu cofnodion nodiadau achos ychwanegol o fewn ei gronfa ddata OHMS gyfredol i rannu gwybodaeth i bawb yn y tîm yn fwy effeithiol

- Proses i'w datblygu i adolygu'r system rybuddio "marciwr" gyfredol gydag OHMS ar gyfer y troseddwr a'r dioddefwyr. Er enghraifft, gall hyn gynnwys adolygiadau blynyddol lle bydd yn cysylltu â dioddefwr i ganfod a fu unrhyw ddigwyddiadau pellach. Bydd hyn yn eu galluogi'n well i gefnogi a monitro dioddefwyr cam-drin domestig ailadroddus a'r rhai sy'n aros mewn perthnasoedd camdriniol. Mae hefyd yn creu cyfle i atgoffa'r dioddefwr o'r gwasanaethau sydd ar gael a holi a hoffent adael y berthynas.

- Sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth cam-drin domestig lefel 1. Bydd pob Rheolwr Cymdogaeth yn cwblhau hyfforddiant lefel 2.

192 **Cyngor Bro Morgannwg - Tîm Datrysiadau Tai**

Nid oes unrhyw argymhellion mewn cysylltiad â Chyngor Bro Morgannwg – Tîm Datrysiadau Tai

193 **Cyngor Bro Morgannwg - Cefnogi Pobl**

Nid oes unrhyw argymhellion mewn cysylltiad â Chyngor Bro Morgannwg – Cefnogi Pobl

194 **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

- Mae'r holl staff iechyd/meddygon teulu i ymgymryd â'r hyfforddiant Cam-drin Domestig Gorfodol (Grŵp 2) i sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu nodi a bod iechyd yn diwallu anghenion y dioddefwyr yn enwedig yn yr uned achosion brys ac yn y meddygfeydd

- Hyfforddiant Cam-drin Domestig pellach i gynnwys y cysylltiadau rhwng cam-drin domestig ac alcohol, gan ddangos sut mae hyn yn cynyddu faint mae'r dioddefwr yn agored i niwed

- Ystyriaeth i'w rhoi gan asiantaethau statudol ac iechyd i'r tîm Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol i dderbyn dioddefwyr risg uchel o HDCau Cam-drin Domestig. Byddai'r wybodaeth yn cael ei chadw ar ffeil yn y gymuned a bydd ar gael i staff ei gweld pe bai dioddefwr yn cyflwyno i nifer o wahanol leoliadau iechyd cymunedol fel y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, yr Adran Iechyd Rhywiol, a gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Byddent yn cael eu hadnabod ar unwaith fel dioddefwyr ac yn cael cyfle i ystyried diogelu a chymorth.

- Ystyried ac archwilio cyflwyno'r rhaglen IRIS i bob practis meddygon teulu ledled Caerdydd a Bro Morgannwg
- Iechyd i barhau i sicrhau bod staff yr adran achosion brys yn effro i adnabod dioddefwyr Cam-drin Domestig posibl a'r broses atgyfeirio drwy gyflwyno rhaglen hyfforddi dreigl i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu dal.

- Iechyd i barhau i ddatblygu ac ehangu'r rôl Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig o fewn y BIP a hyrwyddo'r gwasanaeth a ddarperir.

- Ar bob cyswllt â dioddefwr Cam-drin Domestig rhaid archwilio a chofnodi hunaniaeth y troseddwr. Rhaid dogfennu dim ymateb hefyd.

195 **Gwasanaethau Trais Domestig Atal y Fro**

- Gwella ansawdd ysgrifennu nodiadau / adroddiadau

- Gwneud mwy o ymdrech i roi cyhoeddusrwydd i wasanaethau Atal y Fro ar draws y Fro a Chaerdydd

- Sicrhau cyllid ar gyfer Gweithiwr Addysg i ddarparu mwy o hyfforddiant yn unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Trais Domestig (Llywodraeth Cymru) i bawb sy'n gweithio yn y rhanbarth ym maes cam-drin domestig a rhywiol

- Sicrhau paratoi dynion/ cyplau yn well ac yn fwy dwys cyn ymgymryd ag unrhyw un o'r rhaglenni i wella ymgysylltiad

196 **Cymdeithas Dai Gofal Hafod**

- Sicrhau bod staff yn cofnodi ac yn adrodd gwybodaeth bob amser

- Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi mewn Cam-drin Domestig ac yn cofnodi gwybodaeth yn briodol

- Sicrhau cyfathrebu da â'r holl asiantaethau a sefydliadau e.e. camau dilynol os oes angen gwybodaeth.